

Cynllunio Mynediad Cynhwysol yng Nghymru

# Pecyn Cymorth Canllawiau ar gyfer Arferion Da





# Prosiect Y Ffordd Ymlaen

Cam terfynol Prosiect 'Y Ffordd Ymlaen' ydy'r canllawiau hyn ar gyfer arferion da. Lanswyd y prosiect gan Anabledd Cymru yn 2010 gyda chyllid Grant Hyrwyddo Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru. Nod y Prosiect oedd darparu arfau ymarferol ar gyfer swyddogion cynllunio a sefydliadau anabledd a mynediad i gydweithio er mwyn sicrhau amgylchedd adeiledig gwbl gynhwysol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori, ymglymiad a rhaglen fodiwlaid o gyrsiau hyfforddi ar gyfer grwpiau mynediad a chynllunwyr.



Mae'r Pecyn Cymorth yn tynnu'r materion a'r gwersi o'r rhaglen hyfforddi at ei gilydd i ddarparu adnoddau ar-lein i alluogi cynllunwyr i gynllunio ar gyfer mynediad cynhwysol ac i ymglymu'n effeithiol gyda grwpiau mynediad ac anabledd.

## **Golygyddion:**

Carol Thomas & Caroline Lewis, Access Design Solutions UK Ltd  
and Andrew Lewis, Lewis Consultancy

## **Grŵp Ymgynghorol:**

Alan Hunt, Cyngor Sir Benfro; Vin West, Grŵp Mynediad Arfon; Helen Cook, Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS);  
Andrea Gordon, Cwn Tywys; Huw Thomas, Ysgol Gynllunio Prifysgol Caerdydd; Laura Crawford, Grŵp Mynediad Conwy; Gail Radcliffe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Steve Tilston, Cyngor Sir Ddinbych

## **Hyfforddwyr 'Y Ffordd Ymlaen':**

James Davies, Cymorth Cynllunio Cymru; Helen Kane, Access-Included; Ann Lukens, Group Works; Dr Robert Gravelle, Ymgynghorydd a Staff Anabledd Cymru

## **Comisiynwyd gan Anabledd Cymru**

Access Design Solutions UK Ltd. [www.accessdesignsolutions.co.uk](http://www.accessdesignsolutions.co.uk)

# Cynnwys

<b>Rhagarweiniad</b>	<b>3</b>
<b>1 Pam gwneud cynllunio'n fwy cynhwysol?</b>	<b>5</b>
• Beth ydy 'mynediad cynhwysol'?	5
• Model Cymdeithasol o Anabledd	6
• Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Fyw'n Annibynnol	7
• Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD)	8
• Deddf Cydraddoldeb 2010	9
• Y goblygiadau demograffig ac economaidd	9
• Gofynion deddfwriaeth a chyfarwyddyd o ran cynllunio	10
<b>2 Ymglymu â Grwpiau Mynediad ac Anabledd</b>	<b>12</b>
• Rôl Grŵp Mynediad lleol	12
• Amrywiaeth pobl anabl	13
• Cynorthwyo eich grŵp mynediad lleol	13
• Perthynas Waith, Ymglymiad a Chyfryngu	14
<b>3 Sut i wneud cynllunio'n fwy cynhwysol</b>	<b>18</b>
• Dyletswydd i hyrwyddo mynediad cynhwysol – Deddf Cydraddoldeb 2010	18
• Y materion allweddol i'w hystyried wrth:	19
- baratoi cynllun datblygu	19
- cynhyrchu canllawiau atodol ar gyfer cynllunio	20
- ysgrifennu cynllun a briff cynllunio	21

- ystyried cais cynllunio	22
- paratoi a / neu asesu cynllun a datganiad mynediad	23
- ystyried amodau neu adran gytundebau 106	26
- Asesiadau Effaith Cydraddoldeb	26
• Cynllunio, rheoli adeiladu, priffyrdd, rolau a chyfrifoldebau priodol	27
<b>4 Adnoddau Ymarferol</b>	<b>32</b>
• Anabledd a iaith	32
• Hyfforddiant a datblygiad staff	33
• Cyfathrebu	34
• Cyfarfodydd a digwyddiadau hygrych	34
• Llogi cyfieithydd	35
• Cynhyrchu deunydd hygrych	35
- Deunydd Hawdd ei Ddarllen	35
- Cyfarwyddyd Clir eu Print	36
- Cynhyrchu fformatau hygrych	37
- Ffilmiau, Fideos a DVDs	37
• Cyfeiriadau, tudalennau gwefan ac ymgynghorwyr mynediad achredig	38
<b>Atodiadau</b>	<b>40</b>
1. Cyfryngu	40
2. Anabledd a iaith	46
3. Hyfforddiant a Datblygiad staff	48
4. Llundio rhestr wirio digwyddiad hygrych	51

# Rhagarweiniad

Mae cynllunio ar gyfer mynediad cynhwysol yn rhan hanfodol o ddyletswyddau proffesiynol cynllunwyr, yn gweithio i lywodraeth leol neu ganolog neu yn y sector preifat.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a galluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol. Cymru oedd un o'r gwledydd cyntaf i fabwysiadu Model Cymdeithasol o Anabledd yn 2002 fel dull positif o fynd ati i gyflawni cydraddoledeb anabledd. Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi ariannu prosiect 'Y Ffordd Ymlaen' Anabledd Cymru, prosiect 3 blynedd a lansiwyd yn 2010 i hybu a cynorthwyo 'Cynllunio ar gyfer Mynediad Cynhwysol' yn dangos pa mor bwysig yr ystyrir rôl cynllunwyr.

Mae'r Pecyn Cymorth hwn o Ganllawiau ar gyfer Arferion Da yn tynnu'r materion a'r gwersi o brosiect 'Y Ffordd Ymlaen' at ei gilydd i ddarparu adnodd ar-lein er mwyn galluogi cynllunwyr i gynllunio ar gyfer mynediad cynhwysol ac i ymglymu'n effeithiol gyda grwpiau mynediad ac anabledd. Bydd yr adnodd hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer proffesiynau eraill a disgyblaethau cysylltiedig megis dylunio, priffyrdd a rheoli adeiladu ar gyfer sefydliadau mynediad ac anabledd.



## Mae'r 'Cymorth' yn cynnwys:

- Cyfeiriadau at safonau deddfwriaeth allweddol cenedlaethol a rhyngwladol o ran hawliau anabledd a chydraddoldeb: cyfrifoldebau a'r goblygiadau ar gyfer y proffesiynau cynllunio
- Canllawiau arferion da o ran ymglymu gyda grwpiau mynediad
- Astudiaethau achos, rhestr gwirio, cwestiynau mynych, awgrymiadau ar gyfer arferion da ac adnoddau ymarferol
- Syniadau ar gyfer gweithgareddau DPP – Datblygiad Proffesiynol Parhaus

# 1

## Pam gwneud cynllunio'n fwy cynhwysol?

### **Hawliau a chydaddoldeb anabledd: cyfrifoldebau a goblygiadau ar gyfer y proffesiwn cynllunio.**

Yn yr adran hon, byddwch yn ystyried:

- Beth ydy 'mynediad cynhwysol'?
- Model Cymdeithasol o Anabledd
- Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Fyw'n Annibynnol
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD)
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Y goblygiadau demograffig ac economaidd
- Gofynion deddfwriaeth a chyfarwyddyd o ran cynllunio



“Cynllun da ydy cynllun cynhwysol a dydy cynllun sydd ddim yn creu amgylchedd cynhwysol ddim yn ddigon da.”

*CABE 2006*

### **Beth ydy 'mynediad cynhwysol'?**

Mae mynediad cynhwysol yn sicrhau bod pawb yn gallu cyrraedd, mynd i mewn i ddatblygiadau a chrwydro o'u cwmpas, a chymryd rhan yn y gwasanaethau a'r gweithgareddau a ddaperir. Mae 'pawb' yn cynnwys: rhieni â choetsys, pobl hŷn, pobl â nam ar eu llygaid, pobl â nam ar eu clyw, pobl gyda phroblemau symudedd neu rhai heb ddeall yn llawn am y byd o'u cwmpas. Mynediad cynhwysol ydy'r hyn sy'n deillio o gyfuno cynllun cynhwysol a rheolaeth, gweithrediadau a chynnal a chadw a staff positif wedi'u hyfforddi'n dda.



Mae amgylchedd hygyrch yn well i bawb – byddai unrhyw un â phlant, neu'n cario bagiau neu fagiau llawn siopa neu'n cario hambwrdd neu ffeiliau o bapur ... yn gwerthfawrogi drws sy'n agor yn awtomatig.

## Model Cymdeithasol o Anabledd

Cymru oedd un o'r gwledydd cyntaf i fabwysiadu'r Model Cymdeithasol yn 2002 fel dull positif o fynd ati i sicrhau cydraddoldeb anabledd.

### Beth ydy'r Model Cymdeithasol o Anabledd?

Ystyrir anabledd yn rhywbeth y mae cymdeithas yn ei orfodi ar bobl gyda namau (boed yn nam corfforol, yn nam ar y synhwyrâu, anhawster dysgu neu gyflwr iechyd meddwl) ac mae hyn yn creu rhwystrau i gydraddoldeb. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys:

- Diffyg mynediad i'r amgylchedd adeiledig ac o'i gwmpas gan gynnwys systemau cludiant (rhwystrau amgylcheddol)
- Polisiâu a gweithdrefnau sy'n rhwystro pobl anabl i gyfranogi'n llawn mewn addysg, yn y gweithle a'r gymuned ehangach (rhwystrau sefydliadol)
- Ymagweddau sy'n ystyried pobl anabl yn israddol, yn ddiymadferth, gwan ac agored i niwed (rhwystrau agwedd).

### Beth mae hyn yn ei olygu?

Tasai pawb yng Nghymru'n ddall neu'n rhannol ddall, byddai'r holl wybodaeth i bobl yn glywadwy, yn gyffyrddadwy ac mewn print clir; byddai mwy o bobl yn defnyddio Braille; byddai pob cyhoeddiad yn glywadwy; ac ni fyddai pryderon a allai person dall wneud swydd neu wasanaethau ar reithgor neu gymryd rhan mewn gweithgaredd ddim yn bodoli o gwbl.



“Ni all cynllunwyr newid y byd ond gallan nhw gyfrannu at newid positif.”

## Gweithgaredd DPP



Enghreifftiau o'r modd gallai cymdeithas newid i alluogi pobl anabl i gyfranogi'n gyfartal: Beth fyddai gan y model cymdeithasol i ddweud am bob enghraifft o fodel meddygol?

Model o broblem meddygol	Ateb y model cymdeithasol
Dwylo poenus, methu agor drysau neu jariau, pecynnau ayb	Darparu drysau awtomatig; drysau wedi'u dylunio'n dda; llai o becynnau lapio a gwell lapio; cloriau hawdd eu hagor .... Ayb.
Cael anhawster i sefyll am gyfnodau hir	<i>Eich syniadau</i>
Person yn gaeth i'r tŷ neu i gadair olwyn	<i>Eich syniadau</i>
Pobl yn gwrthod swydd i unigolyn gan gredu na fydd yn gallu gwneud y gwaith	<i>Eich syniadau</i>
Person sydd ddim yn gallu gweld neu ddim yn gallu clywed	<i>Eich syniadau</i>

*Ffynhonnell:* Anabledd Cymru Ewch i'r wefan am awgrymiadau Anabledd Cymru. <http://www.disabilitywales.org/social-model,3>

## Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithredu Byw'n Annibynnol

Nod y Fframwaith ydy darparu, am y tro cyntaf, ddull strategol o ddelio ag anabledd yng Nghymru.



“Dyma'r math o wlad yr ydyn ni'n dymuno i Gymru fod.”

*Jane Hutt AC, & Gwenda Thomas AC,  
Rhagair i'r Fframwaith*



Mae'r Fframwaith yn datgan yr hyn a fyddai'n galluogi i bobl anabl fyw'n annibynnol:

- Gwybodaeth, cyngor, eiriolaeth annibynnol a chymorth cymheiriaid
- Tai hygyrch a thai lle ceir cefnogaeth
- Gofal a Chymorth wedi'u personoli
- Technoleg wedi'i ganoli ar y person
- System gludiant ddi-rwystr
- Mannau hygyrch a chynhwysol
- Cyflogaeth

Seilir y rhain ar '12 Piler Byw'n Annibynnol'. Anabledd Cymru.

Er bod 'mannau hygyrch a chynhwysol' a 'system gludiant ddi-rwystr' yn amlwg yn ymwneud â chynllunio, mae gan gynllunwyr rôl allweddol i ddylanwadu ar y materion hyn i gyd. Mae pob datblygiad newydd neu addasiad yn creu cyfle i hyrwyddo cynhwysiad pobl anabl. Er gwaethaf deddfwriaeth a chyfarwyddyd polisi cadarn, mae ymglymiad Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu Fframwaith Byw'n Annibynnol yn awgrymu bod y cyfleoedd hyn yn cael eu colli'n gyson.



“Sylfaen y broses o lunio cynllun cynhwysol ydy pobl; mae'n darparu adeiladau ac amgylcheddau sy'n gyfleus ac yn bleser i'w defnyddio.”

## **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau**

Mae gan Lywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol ddyletswydd i weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig. Nod y Fframwaith ar gyfer Byw'n Annibynnol ydy datblygu erthygl 19: Yr hawl i fyw'n annibynnol.

Y maes allweddol ar gyfer cynllunwyr ydy - Erthygl 9: y ddyletswydd i sicrhau mynediad i bobl ag anableddau, yn gyfartal ag eraill i'r amgylchedd ffisegol, i gludiant, i wybodaeth a chyfathrebu gan gynnwys technolegau a systemau gwybodaeth ac i gyfleusterau eraill sydd ar agor neu wedi'u darparu ar gyfer y cyhoedd mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd.

## **Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dod â'r deddfau gwrthwahaniaethol blaenorol (gan gynnwys anabledd) at ei gilydd a'i disodli o fewn Deddf sengl. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol') a 'dyletswyddau penodol' ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol a'r ddyletswydd benodol.

Nod y ddyletswydd gyffredinol ydy sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sydd â swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut gallan nhw gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori yng nghynllun polisiau a chyflenwi gwasanaethau a'u hadolygu'n gyson. Ymhlith y dyletswyddau penodol mae, er enghraifft, ymglymiad ac asesu effaith.

## **Y goblygiadau demograffig ac economaidd**

Yn y DU mae o leiaf 11 miliwn o bobl sy'n ystyried eu hunain yn anabl a thros 14 miliwn o bobl dros 60 oed sy'n cael anhawster gyda'u symudedd, eu golwg, eu clyw neu eu gallu gwybyddol. Hefyd, o gofio bod ein poblogaeth yn heneiddio, mae'n gwneud synnwyr i gynllunio ar gyfer mynediad cynhwysol.

- Mae gan Oedolion Anabl yn y DU rym gwario blynyddol o dros £80 biliwn
- Mae 82% o gwsmeriaid anabl yn y DU wedi mynd â'u busnes i gystadleuydd mwy hygyrch

*(Fforwm Cyflogwyr ar Arolwg Anabledd)*

Mae canran uwch o bobl hŷn a phobl anabl yng Nghymru na Phrydain gyfan. Yn ôl Stats Wales, mae tua 18% o boblogaeth Cymru dros 65 oed ac mae tua 23% o'r boblogaeth oed gweithio yn bobl anabl, ac mae'r ddau ffigwr ar gynydd.

Dydy'r rhan fwyaf ohonon ni ddim yn mynd allan i dafarn, i fwyty neu i gyfleuster hamdden ar ein pen ein hunain ac mae pobl anabl yr un fath. Bydd gwasanaeth sy'n hygyrch i bobl anabl yn ennill busnes grŵp o deulu neu ffrindiau (a bydd yr enw'n lledu ar lafar!).

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r achos busnes ar gyfer twristiaeth hygyrch a sicrhau bod Cymru'n cynnig dewys eang o lety, lleoliadau a chyfleusterau i ddenu ymwelwyr anabl. Mae cynhyrchu datganiad hygyrchedd yn elfen orfodol o broses graddio Croeso Cymru (Visit Wales) ar gyfer busnesau ym maes twristiaeth. (*Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol 2012*)

## **Gofynion deddfwriaeth a chyfarwyddyd o ran cynllunio**

Mae gan gynllunwyr ddyletswydd broffesiynol i weithredu er budd y cyhoedd ac mae hynny'n cynnwys pobl anabl. Mae gofyn i Awdurdodau Cynllunio hybu mynediad cynhwysol yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb yn ogystal â gofynion Cynllunio penodol pan 'ddylen nhw ystyried yn gynnar yn y broses gynllunio, y mater o hygyrchedd i bawb, gan gynnwys anghenion pobl â nam synhwyaidd, pobl ag anawsterau dysgu a phobl â nam symudedd, megis defnyddwyr cadeiriau olwyn, pobl hŷn a phobl â phlant ifanc. *Polisi Cynllunio Cymru (Planning Policy Wales)*, a cheir y manylion yn TAN12.

Hefyd, ceir gofynion ar gyfer mynediad cynhwysol o ran bod yn gynaliadwy, er enghraifft, BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) Adeiladau Newydd MAN 04: 'I ddylunio, cynllunio a chyflenwi adeiladau hygyrch ymarferol a chynhwysol ar ôl ymgynghori â darpar ddefnyddwyr adeiladau a'r rhai cyfredol a rhanddeiliad eraill.'

Mae'n hanfodol pwysleisio pwysigrwydd mynediad i bawb ar gychwyn y broses cynllunio. Mae ystyried mynediad yn gynnar yn y broses cynllunio yn arbed amser, ymdrech ac arian sylweddol i gynllunwyr a dylunwyr yn yr hir dymor. Gall unioni'r rhwystrau i fynediad, oherwydd adeiladau ac amgylcheddau gwael eu dyluniad, gostio swm sylweddol o arian, yn enwedig pan fydd prosiectau ar fin dod i ben neu wedi'u cwblhau yn barod.



### **Dylai'r cynllunio:**

**“Feithrin cynhwysiad cymdeithasol drwy sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y cyfleoedd i sicrhau amgylchedd mwy hygyrch ar gyfer pawb y mae datblygu tir ac adeiladau yn ei ddarparu.”**

*Polisi Cynllunio Cymru*

## Gweithgareddau DPP



### Gweithgaredd 1

Ystyried: beth ydy prif ddylanwadau y system gynllunio ar y broses ddylunio ac yn y pen draw ar gynllun / mynediad cynhwysol?

Asesu effaith y dylanwadau hyn ar: gynllun datblygu eich Awdurdod; dogfennau polisi cynllunio; datblygiadau diweddar yn eich ardal

Rhestru dulliau y gallech, yn eich rol, fod wedi gwella'r canlyniadau. Oes dulliau y gallech wneud pethau'n wahanol y tro nesaf?



### Gweithgaredd 2

Defnyddiwch astudiaethau achos go wir i archwilio dwy agwedd / elfen wahanol yn yr amgylchedd adeiledig a'r dulliau o ddelio â chynllun cynhwysol.

Ar gyfer pob agwedd / elfen yr ydych yn ei ddewis, rhaid i chi ystyried:

- Y gwahanol opsiynau sydd gan ddylunwyr a'u gwerthuso
- Canfod, lle bo'n bosibl, gwell atebion a sut gallech chi fod wedi dylanwadu ar hyn
- Ystyriwch y modelau sylfaenol anabledd a'r effaith y mae'r rhain yn ei gael ar y dull a gymerwyd o fynd ati i ddylunio
- Ystyriwch y dull y mae defnyddwyr yr amgylchedd adeiledig yn rhyngweithio gyda'r agweddau / elfennau a ddewiswyd.

## 2 Ymglymu â grwpiau mynediad ac anabledd

Yn yr adran hon, byddwn yn ystyried:

- Grwpiau mynediad a'u rôl – arbenigedd / safbwyntiau
- Amrywiaeth pobl anabl
- Cynorthwyo eich grŵp mynediad lleol
- Perthynas Waith, Ymglymiad a Chyfryngu

### Rôl Grwpiau Mynediad Lleol

Yn gyffredinol, mae grwpiau mynediad yn grwpiau o bobl sy'n ceisio helpu i wella mynediad a chynhwysiad o fewn yr amgylchedd adeiledig. Mae gan rai gylch gwaith ehangach ac hefyd yn darparu cyngor ar faterion eraill.

Gall grwpiau mynediad gyflawni pob un o'r rolau canlynol neu rai ohonyn nhw:

- Cynrychiolwyr o'r gymuned leol: bydd aelodau anabl yn gallu tynnu ar brofiad personol, ac yn gallu cynnig safbwynt rhywun sydd â nam ar sut gallai darpar ddatblygiad effeithio ar ddefnyddwyr potensial, neu sut gallai cynllun sydd eisoes yn bodoli yn effeithio'n barod ar ddefnyddwyr.
- Arbenigwyr technegol ar fynediad a chynhwysiad: bydd nifer o grwpiau yn tynnu ar wybodaeth ac arbenigedd technegol am Reoliadau Cynllunio ac Adeiladu a chanllawiau arferion gorau ar gyfer cynllun arfaethedig neu ar gyfer ateb, adeilad neu ofod sydd eisoes yn bodoli.
- Codi ymwybyddiaeth ac ymgyrchu: bydd grwpiau yn mabwysiadu ac yn helpu i godi ymwybyddiaeth o fater penodol drwy gysylltu â chyrrff neu unigolion allanol. Gallai grwpiau hefyd gydrannu eu gwybodaeth a'u profiadau drwy gynhyrchu ymateb grŵp i ymgynghoriadau lleol neu genedlaethol perthnasol.

*Ffynhonnell:* Gwefan Adnoddau Grŵp Mynediad



“NI ellir sicrhau bod adeiladau cyhoeddus, siopau, banciau, cyfleusterau hamdden, strydoedd, parciau a mannau cyhoeddus eraill yn hollol hygyrch i bawb yn unig drwy gydymffurfio â deddfwriaeth,

cyfarwyddyd a rheoliadau. Mae gofyn hefyd am ddealltwriaeth fanwl o sut bydd yr adeilad a'i amgylchoedd ehangach yn cael eu defnyddio. Dyma lle mae gan Grwpiau Mynediad lleol arbenigedd amhrisiadwy i helpu awdurdodau cyhoeddus a datblygwyr y sector preifat ganfod y problemau posibl, yn ogystal â chreu cyfleoedd i greu adeiladau a mannau mwy cynhwysol”  
*Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol*

Gall aelodau grŵp mynediad ddarparu cyngor gwerthfawr, er enghraifft, yn seiliedig ar eu profiad o ymweld ag adeiladau ac ardaloedd eraill, gallen nhw gynnig cyngor ar sut mae eraill wedi delio â phroblem mynediad penodol.

## **Amrywiaeth pobl anabl**

Gall fod gan bobl anabl nam corfforol, nam ar eu synhwyrau, anhawster dysgu neu gyflwr iechyd meddwl neu gyfuniad o'r rhain; gallen nhw fod yn rhieni, yn ofalwyr, yn gweithio, wedi ymddeol, yn blant, yn ddynion, yn fenywod, du, gwyn ac yn y blaen. Mae grwpiau mynediad lleol yn cynrychioli eu cymuned lleol ac yn ystyried materion o safbwynt cynhwysiad, yn dysgu oddi wrth ei gilydd i allu gwerthfawrogi bod rhaid i atebion mynediad gwrdd ag anghenion pawb. Maen nhw'n byw yn yr ardal lleol a byddan nhw'n defnyddio, neu am ddefnyddio'r mannau a'r adeiladau a ddarperir drwy gynllunio.

Os nad ydy'ch grŵp mynediad lleol yn adlewyrchu'r amrywiaeth hwn o brofiad, cynigiwch eu helpu i ddod o hyd i ragor o aelodau a'u cynorthwyo. Gallech gynnwys grwpiau lleol megis cymdeithas y deillion a phobl rannol ddall er mwyn llenwi'r bylchau profiad. Rhestrir ystod o sefydliadau yn adran 4 ynghyd â manylion cyswllt grwpiau lleol.

## **Cynorthwyo eich grŵp mynediad lleol**

Gwelir mewn ymchwil a gyhoeddwyd yn adroddiad y Comisiwn Hawliau Anabledd (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Anabledd erbyn hyn) – *'Towards Access Standards': gwaith grwpiau mynediad lleol yn Lloegr a Chymru* amrywiaeth eang y cymorth sydd ar gael i grwpiau mynediad lleol a phwysleisiwyd y pwysau a roddir ar grwpiau mynediad i ymateb i'r holl ofynion. Amlygodd proses ymglymu

Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithredu Byw'n Annibynnol bod hyn yn parhau a bod nifer o grwpiau mynediad wedi dirwyn i ben oherwydd diffyg cefnogaeth.

Mae Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol yn herio gwasanaethau lleol i gynorthwyo sefydliadau anabledd a mynediad a chydabod eu cyfraniad. Er enghraifft, mae Grwpiau Mynediad yn dweud eu bod angen cyfraniad o £1–2000 y flwyddyn ar gyfer costau gweinyddu a theithio. Mae hyn yn caniatáu llawer iawn o amser gwirfoddol ac arbenigedd, ond mae llawer o grwpiau yn ei chael hi'n anodd i sicrhau'r gefnogaeth hon.

Mae rhai grwpiau Mynediad yn derbyn cymorth megis amser staff i weinyddu gan eu Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol rhanbarthol ond does dim cysondeb yn hyn o beth.

### **Gall Awdurdodau Cynllunio roi cymorth i Grwpiau Mynediad Lleol drwy:**

- Grantiau bach
- Cael defnyddio lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd am ddim
- Cymorth gweinyddu megis teipio a chopio cofnodion ac adroddiadau
- Cyllido ar gyfer cynhyrchu deunydd hygyrch (e.e. Braille, sain), a chymorth megis cyfieithwyr iaith arwyddion ayb.
- Darparu hyfforddiant megis ar faterion cynllunio
- Cyllido hyfforddiant allanol – gallai hyn, lle bo'n briodol, fod ar y cyd gyda chynllunwyr ac aelodau grŵp
- Talu costau teithio
- Darparu adnoddau megis canllawiau arferion da
- Penodi person i gysylltu â'r grŵp – mae Swyddogion Mynediad yn darparu cymorth amhrisiadawy mewn rhai ardaloedd
- Rhagweithio i ymglymu â Grŵp Mynediad a chefnogi'r ymglymiad hwn
- Sicrhau bod ymglymiad gyda'r grŵp yn ystyrlon – proses ymgynghori bwylllog gyda dogfennau hygyrch, papurau briffio hawdd eu darllen yn enwedig ar gyfer dogfennau mawr, gan ganiatáu digon o amser i ymateb a darparu adborth sy'n dangos

eich gwerthfawrogiad o’u mewnbyn a’r camau gweithredu sy’n deillio o hynny. Mae hyn yn arfer da ac yn rhan o ddyletswyddau cydraddoldeb.

Yng nghyhoeddiad y CHD *‘Planning, buildings, streets and disability equality’* (‘Cynllunio, adeiladau, strydoedd a chydraddoldeb anabled’) ceir cyngor pellach ar ymglymu gyda grwpiau mynediad.

## **Sefydlu perthynas waith effeithiol a phroses ymglymu**

Mae llawer o grwpiau mynediad yn teimlo y gellid gwella eu perthynas gyda’r awdurdodau lleol a byddau cyswllt ffurfiol yn ddefnyddiol i hybu hyn. Mae cefnogaeth ar gyfer datblygu o ran amodau gorchwyl cydnabyddedig grwpiau mynediad lleol ar yr amod nad ydy hyn yn cyfyngu ar amrywiaeth ac annibyniaeth grwpiau mynediad lleol.

Gallai Grŵp Mynediad ac Awdurdod Lleol ddatblygu amodau cylch gwaith a phroses ymglymu ar y cyd a fyddai’n gweithio i’r ddau barti, yn egluro eu gwahanol rolau a’u cyfrifoldebau tra’n cadw hyblygrwydd, a thrwy hynny eu galluogi i weithio gyda chyrff eraill a gwerthfawrogi rôl ymgyrchu annibynnol y Grŵp Mynediad.

## **Cyfyngu**

Roedd Prosiect ‘Y Ffordd Ymlaen’ yn cynnwys modiwl ar gyfyngu.

Proses ydy cyfyngu sy’n galluogi partion i ddod i ddeall safbwyntiau ei gilydd ac yn enwedig sut mae eu hanghenion a’u buddiannau yn herio’r broblem (problemau) y mae’n nhw’n wynebu gyda’i gilydd.

Bu anawsterau yn y gorffennol rhwng Grwpiau Mynediad ac Awdurdodau Lleol ynglŷn â materion cynllunio. Gall ymyriad sensitif megis proses cyfyngu ddynodi bwriad a chanfod dulliau newydd o fynd ati i i ddeall anawsterau’r gorffennol er mwyn symud ymlaen. Bydd y dull hwn o fynd ati yn y pen draws yn arbed ymdrech ac amser sylweddol i’r Grwpiau Mynediad a’r Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Gall proses gyfyngu hefyd helpu i greu fframwaith ar gyfer grŵp mynediad newydd i weithio gyda’r Awdurdod Lleol i sefydlu proses a



pherthynas barhaus effeithiol i sicrhau bod polisiau a phenderfyniadau cynllunio yn gynhwysol.

Gall partiön medrus weithio drwy'r broses eu hunain, ond mae'n ddefnyddiol weithiau i gael cyfryngwr annibynnol wedi'i hyfforddi i arwain y broses a chynorthwyo POB parti er mwyn sicrhau ymddiriedaeth yn nhegwch a chydreddoldeb y broses.

Mae prosiect 'Y Ffordd Ymlaen' wedi canfod rhai camau cychwynnol a dilynol yn y broses a nodir y rhain yn **atodiad 1** ynghyd â manylion am y modd y gallai'r broses cyfryngu (a chymorth arall) weithio.

## Engheifftiau o Arferion Da



Yn ystod yr ymarferion ymglymu oedd yn arwain at Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol, "pwysleisiodd... nifer o gyfranogwyr effaith bositif y grwpiau mynediad lleol, er enghraifft y gwelliannau i orsaf Machynlleth drwy ymgysylltu â Grŵp Mynediad Dwyfor; ac ymglymiad parhaus grwpiau Mynediad yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd a Chastell-nedd Porth Talbot mewn adeiladau mawr a phrosiectau adfywio".

Mae Prifysgol Bangor yn cysylltu'n gyson â Grŵp Mynediad Arfon ar gynlluniau datblygu mawr a bach ac yn cyfarwyddo datblygwyr y maen nhw'n eu cyflogi i wneud hynny hefyd. Mae bron y cyfan o argymhellion y Grŵp Mynediad yn cael eu mabwysiadu. Mae'r Brifysgol yn cynorthwyo'r Grŵp Mynediad drwy gyfraniad bach blynyddol .

Cydweithiodd Swansea Access for Everyone (SAFE), y Cŵn Tywys, Llywodraeth Cymru, swyddogion Cyngor Abertawe a Threnau Arriva Cymru ar ail-ddatblygu Gorsaf Drenau Abertawe. Ystyriwyd man cymorth cwsmeriaid, arwyddion, goleuo a dull cyffyrddadwy o fynd o gwmpas, mewn cyfarfodydd strwythuredig lle trafodwyd pob adborth. Yn Abertawe hefyd mae'r map cyffyrddadwy cyntaf yng Nghymru, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gynhyrchu gan yr RNIB.

## Astudiaeth Achos



Ym mis Mawrth 2012, Ysgol Gynradd Eglwys y Priordy yn Aberhonddu. Powys oedd y cyntaf erioed i ennill Gwobr Selwyn Goldsmith am Ddyluniad Cyffredinol. Disgrifwyd cynllun yr ysgol yn enghraifft o sut gall dyluniad ystyrlon ac arloesol ynghyd â dealltwriaeth glir o anghenion defnyddwyr gyfuno i greu amgylchedd sy'n gynhwysol a hygyrch i bawb sy'n ei ddefnyddio. Ymgynghorodd y tîm dylunio â'r gymuned leol a grwpiau mynediad lleol a darpar ddefnyddwyr i weld beth oedd eu hangenion a'r hyn roedden nhw'n gobeithio ei gael o'r adeilad gorffenedig. Yr hyn a gafwyd oedd adeilad sensitif ei gynllun sy'n creu lle cynnes, hawdd ei dramwyo, ffres a hawdd ei ddefnyddio ar gyfer disgyblion, staff ac ymwelwyr.

*Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithredu  
Byw'n Annibynnol, 2012*

## Gweithgareddau DPP



- 1** Gwahodd aelodau o'ch grŵp mynediad lleol neu sefydliad anabledd i sesiwn DPP i drafod eu profiad o fynediad.
- 2** Trefnu sesiwn DPP ar y cyd gyda'ch grŵp mynediad lleol lle rydych chi'n gwahodd aelod o fudiad yn cynrychioli grŵp â nam neu grŵp buddiannau i heb fod ynghlwm wrth Grŵp Mynediad i drafod blaenoriaethau eu problemau mynediad.
- 3** Trefnu cyfarfod agored ar y cyd rhwng swyddogion a'ch grŵp mynediad lleol neu sefydliad anabledd i drafod sut gallech chi gydweithio (neu weithio'n fwy effeithiol os oes cysylltiad eisoes). Ystyriwch y gofynion a'r cyfyngiadau ar y naill a'r llall. Gallai fod yn fuddiol cael hyrwyddwyr annibynnol neu gyfryngwr yn bresennol ac efallai bod angen cyfres o gyfarfodydd.

# 3 Sut i wneud cynllunio'n fwy cynhwysol

## Yn yr adran hon, byddwch yn ystyried:

- Dyletswydd i hyrwyddo mynediad cynhwysol
- Y materion i'w hystyried wrth:
  - baratoi cynllun datblygu
  - cynhyrchu canllawiau atodol ar gyfer cynllunio
  - ysgrifennu cynllun a briff cynllunio
  - ystyried cais cynllunio
  - paratoi a / neu asesu cynllun a datganiad mynediad
  - ystyried amodau neu adran gytundebau 106
  - Asesiadau Effaith Cydraddoldeb
- Cynllunio, rheoli adeiladu, priffyrdd, rolau a chyfrifoldebau priodol.

## **Mae hyrwyddo mynediad cynhwysol yn rhan annatod o ddyletswydd sector cyhoeddus yr Awdurdod Lleol yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010**

Argymhellion allweddol canllawiau'r CHA (y Comisiwn Hawliau Anabledd a Chydraddoldeb erbyn hyn) 'Planning, buildings, streets and disability equality' (Cynllunio, adeiladau, strydoedd a chydraddoldeb anabledd') ydy:

- Penodi swyddog mynediad i gydlynu materion mynediad ar draws yr awdurdod
- Enwi 'hyrwyddwr' mynediad ymhob adran
- Dylai pob swyddog fod wedi'u hyfforddi a'u harfarnu mewn cydraddoldeb anabledd
- Dylai aelodau etholedig allweddol hybu buddiannau pobl anabl
- Dylai'r holl aelodau etholedig fod wedi'u hyfforddi mewn cydraddoldeb anabledd.
- Gwerthfawrogi, cynorthwyo a datblygu arbenigedd grwpiau mynediad gwirfoddol
- Rhaid delio â chydraddoldeb wrth wneud pob penderfyniad

- Sicrhau bod gofynion mynediad yn cael eu cymhwyso'n gyson drwy gael eu monitro

Yn *'Planning and Access for Disabled People'* (Cynllunio a Mynediad ar gyfer Pobl Anabl) (ODPM, 2003) ceir Pwyntiau Arfer Da y dylai awdurdodau lleol a datblygwyr eu mabwysiadu. Mae'r arferion da yn dal yn berthnasol er yn bodoli ers 10 mlynedd.

Cynghorir awdurdodau cynllunio i:

- gynnwys polisiau mynediad cynhwysol ymhob lefel o'r cynllun datblygu a'i ategu gan bolisi strategol penodol;
- datblygu a gweithredu canllawiau atodol;
- annog trafodaethau gydag ymgeiswyr cyn iddyn nhw wneud cais;
- annog ymgeiswyr i gyflwyno datganiadau mynediad gyda'u cais (mae'n ofyniad nawr ar gyfer pob cais, dylai awdurdodau sicrhau eu bod yn gyflawn – gweler isod);
- sicrhau bod swyddogion cynllunio yn derbyn hyfforddiant priodol ar bob agwedd o amgylchedd cynhwysol;
- penodi swyddog mynediad a gwneud defnydd o ymgynghorydd mynediad addas; ac
- annog cysylltiad cyson gyda grwpiau mynediad lleol.

## Gweithgareddau DPP



Sawl un o'r rhain mae eich Awdurdod wedi'u mabwysiadu?

### Cynlluniau Datblygu

Dylai cynlluniau datblygu lleol (CDLI) ddarparu polisiau clir, wedi'u hategu lle bo'n briodol gyda chyfarwyddyd cynllunio ategol, yn datgan yr hyn mae awdurdodau cynllunio lleol yn ei ddisgwyl o ran dyluniad ar gyfer manau a chynigion datblygu. Dylid cynnwys y polisiau lleol sy'n debygol o fod yn sail i benderfyniadau cynllunio neu i benderfynu ar amodau'r caniatad cynllunio yn y CDLI.

Dylai awdurdodau cynllunio a datblygwyr ystyried mater hygyrchedd i bawb, gan gynnwys anghenion pobl â nam synhwyraidd, pobl ag

anawsterau dysgu a phobl â nam symudedd, megis defnyddwyr cadeiriau olwyn, pobl hŷn a phobl â phlant ifanc, yn gynnar yn y broses ddylunio. (PPW 4.11.11)

Mae angen ymgynghori â Grwpiau Mynediad Anabledd drwy'r broses o gynllunio defnydd o dir. (PPW 3.4.1)

Nid yw'n ofynnol, nac yn ddigonol, i bolisiau cynllunio cenedlaethol yn *Polisi Cynllunio Cymru* megis 4.11.11 gael eu hailadrodd mewn CDLI, yn hytrach dylai'r CDLI egluro sut i gymhwyso'r polisi hwn i'r ardal leol.

## Ystyriwch:



- Ydy'r CDLI yn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae datblygu tir ac adeiladau yn ei gynnig i sicrhau amgylchedd mwy cynhwysol?
- Ydy 'hygyrchedd' yn gofyn yn glir am fynediad i bob person anabl, er enghraifft ydy 'hygyrch drwy gludiant cyhoeddus' yn cynnwys y pellter i'r arosfan bws, gyda llwybrau gwastad, eang, llwybrau di-rwystr i gerddwyr, rhai ar wahân i gerbydau a seiclwyr; arosfan bws hygyrch gyda gwybodaeth sain a gweledol?

## Canllawiau Cynllunio Ategol

Gallai awdurdodau cynllunio hefyd gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Ategol (CCA) i roi cyfarwyddyd manwl ar arfer da ac i egluro dulliau ar gyfer gweithredu'r polisiau yn eu CPP. Gellir defnyddio'r CCA sy'n deillio o'r Cynllun Datblygu ac yn gyson ag e ac a baratowyd yn y modd priodol, yn helaeth ar gyfer gwneud cais cynllunio.

Bydd sefydlu ystod priodol o bolisiau a chyfarwyddyd yn sail i'r broses o wneud cais cynllunio ac yn egluro'r gofynion i'r ymgeiswyr ac yn rhoi cymorth cadarn i swyddogion cynllunio wrth drafod cynigion neu wrthod cynlluniau annerbyniol sydd ddim yn unol â'r CDLI.

## Enghreifftiau o Ganllawiau Cynllunio Atodol yng Nghymru



Mae rhai Awdurdodau Cynllunio wedi mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar fynediad. Ym mis Mehefin 2003, cymeradwywyd CCA 8 'Access for All' ('Mynediad i Bawb') Cyngor Sir Ddinbych i'w ddefnyddio wrth reoli datblygiadau, i ddarparu cyfarwyddyd i ddylunwyr ac ymgeiswyr i gwrdd ag anghenion pobl anabl drwy gynllun cynhwysol ar gyfer pob math o ddatblygiad.

Ystyriwyd CCA Abertawe, 'Access for Disabled Persons' ('Mynediad i Bobl Anabl') yn fodel o arferion da ar draws y DU ond dydy e ddim wedi cael ei ddiweddarau ers 1993.

*Ydy eich Awdurdod wedi mabwysiadu CCA ar fynediad ar gyfer pobl anabl a chynllun cynhwysol? Os felly, pryd cafodd y cynllun ei ddiweddarau? Ydy e'n cael ei adlewyrchu mewn CCA a dogfennau polisi eraill?*

Mae CCA Cyngor Sir Benfro ar ddyluniad Ffrynt Siopau (Shopfront Design) (2011) yn ymgorffori mynediad i'r anabl a phobl hŷn. Mae'r egwyddorion hyn hefyd wedi cael eu mabwysiadu gan Barc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (Pembrokeshire Coast National Park).

### Dylunio a Briff Cynllunio

Dylai dyluniad cynhwysol fod yn rhan ofynnol o bob briff cysyniad i benseiri neu ddylunwyr. Dylai hwn nodi gofynion mynediad allweddol drwyddi draw, yn dibynnu ar natur y datblygiad, nodi safonau arferion da i'w cyflawni ac ymglymiad grŵp mynediad lleol yn gyffredinol. Lle bo'n briodol, cynghorir penodi arbenigwr mynediad i'r tîm dylunio.

Mae safonau hygyrchedd yn esblygu'n barhaus wrth i ddisgwyliadau newid ac wrth i dechnoleg ddatblygu. Ni ddylai briffiau cynllunio a dylunio fod mor haearnidd i dagu arloesedd a allai ddarparu safonau uwch ar gyfer hygyrchedd ond os ystyrir dulliau newydd o fynd i'r afael â dylunio, dylai fod yn ofynnol i hygyrchedd i bawb fod yn ddibynnol ar ymchwil a phrofion trylwyr cyn ei roi ar waith. Dylai amseru a chyllideb

fod wedi'u hymgorffori i ganiatáu am unrhyw newid petai'r dulliau newydd ddim yn gwbl hygyrch yn ymarferol.

## Enghraifft:



Enghraifft o hyn ydy gweithredu'r dull o rannu gofod drwy strydoedd â wŷneb caled sy'n cael eu rhannu. Canfu ymchwil ymhlith pobl anabl bod diffyg palmentydd a llwybrau gyfer cerddwyr agored i niwed, y llwybrau hynny sydd wedi'u marcio'n glir i wahardd trafndiaeth a diffyg manau croesi, yn golygu bod rhai ardaloedd yn anodd iawn neu'n amhosibl i rai pobl eu defnyddio. Mewn nifer o ardaloedd yn y DU roedd gofyn am fesurau ail-wampio (retrofit). Cofiwch bod rhaid i awdurdodau cynllunio hyrwyddo gwelliannau positif yn hytrach na dim ond gwarchod rhag problemau.

## Datganiadau Dylunio a Mynediad

Yng Nghymru, o 30ain Mehefin 2007, bu'n orfodol i gyflwyno Datganiadau Mynediad gyda'r rhan fwyaf o geisiadau cynllunio. O fis Mehefin 2009, roedd gofyn am gyfuniad o Ddatganiadau Dylunio a Mynediad.

Mae dwy elfen gysylltiol i'r Datganiad. Yr elfen gyntaf ydy'r dylunio sy'n egluro'r weledigaeth a bwriad y cynllun ar gyfer y datblygiad arfaethedig, yn dangos sut mae dyluniad y cynllun yn gweddu i'r safle ac yn ymateb i gymeriad ffisegol a chyd-destun yr ardal o'i gwmpas. Yr elfen arall ydy mynediad sy'n egluro sut y deliwyd â materion mynediad; mae'n dangos sut bydd y datblygiad arfaethedig yn ymgorffori egwyddorion dyluniad cynhwysol tra'n ymateb i ffactorau megis y topograffeg cyfredol neu gyfyngiadau'r safle megis siâp adeiladau sydd eisoes yn bodoli. (*Cymorth Cynllunio Cymru*, 2011)

Oes oes gofyn am Ddatganiad Dylunio a Mynediad, ni ddylai Awdurdod Cynllunio ddilysu'r cais onibai bod yna ddatganiad addas gyda'r cais.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad o effeithiolrwydd Datganiadau Dylunio a Mynediad, i'w gyflwyno ddiwedd 2013.

Gallai cynllunwyr mewn practis preifat baratoi datganiadau mynediad tra bod gofyn i Awdurdodau Cynllunio eu hasesu. Man cychwyn ydy'r rhestr wirio ganlynol:

### **Paratoi neu Aseu Datganiad Dylunio a Mynediad: Ydy e'n cynnwys:**



- gweledigaeth ac amcanion ar gyfer cyflawni mynediad cynhwysol da?
- polisiau cynllunio (lleol a chenedlaethol) a rheoliadau adeiladu a ystyriwyd wrth ddylunio'r cynllun?
- sut y deliwyd â phroblemau mynediad a nodwyd yn nyluniad y cynllun, fel y dangosir yn lluniau'r dyluniad, gan gynnwys:
- bod mynedfeydd ac allanfeydd yn hygyrch ac yn hawdd dod o hyd iddyn nhw?
- bod llwybrau sy'n mynd o gwmpas a mynediad i adeiladau yn ddigon gwastad a chadarn a bod manau croesi diogel a hygyrch wedi cael eu darparu?
- y manylion a'r deunyddiau i'w defnyddio ar gyfer nodweddion allanol megis parcio, manau agored, celfi stryd, goleuo allanol?
- y bydd y parcio'n cysylltu'n ddiogel â llwybrau troed er mwyn osgoi gwrthdaro diangen rhwng cerbydau a cherddwyr, ac na fydd ardaloedd storio (e.e. biniau sbwriel) yn creu rhwystrau?
- sut ystyriwyd hygyrchedd gwahanol ddulliau o deithio o'r man gollwng i'r drws?
- sut bydd mynediad yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod adeiladu a rhowch fanylion o bolisiau rheoli a chynnal a chadw er mwyn sicrhau mynediad da parhaus drwy gydol oes yr adeilad?



- pam efallai na fydd cynigion dyluniad arbennig yn cwrdd â safonau cydnabyddedig, ond yn dal i ddarparu mynediad cynhwysol o safon da o leiaf?
- darparu dewisiadau amgen pan na fydd un ateb yn cwrdd â'r holl ofynion mynediad?
- y bobl a'r grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y broses ddylunio i helpu i ganfod a goresgyn unrhyw broblemau mynediad sy'n codi?
- Sut mae'r Datganiad Mynediad wedi esblygu o'r weledigaeth i'r cyflwyniad ynghyd â'r cais cynllunio?

## Gweithgaredd DPP:



Ystyried Datganiad Mynediad diweddar yr ydych wedi'i baratoi neu ei asesu. Faint o'r pwyntiau uchod y delir â nhw? Oes pwyntiau eraill y gallech eu hychwanegu at y rhestr?

Mae'r gofyn am elfen mynediad o'r datganiad yn cyfeirio at "fynediad i ddatblygiadau" yn unig ac felly, nid yw'n berthnasol i agweddau mewnol adeiladau unigol – Rheoliadau Adeiladu sy'n delio â hynny. Ond, mae ystyriaethau yn gorgyffwrdd, er enghraifft os nad ydy cynllun tu mewn i adeilad yn cael ei ystyried bydd hi'n anodd iawn penderfynu ble dylid rhoi mynedfeydd ac allanfeydd tân. Felly, efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r datganiad egluro sut caiff mynediad mewnol ei ddylunio, ei ddarparu a'i ddefnyddio oherwydd gall hyn effeithio ar sut bydd y lle yn edrych a gweithio yn y pen draw.

Gall proses datganiad mynediad sicrhau bod unrhyw densiwn rhwng creu amgylchedd hygyrch a materion diogelwch yn cael eu canfod yn gynnar a thrwy hynny eu goresgyn.

Gall datganiad mynediad ar gyfer datblygiad preswyl helpu i sicrhau bod gofynion anheddau i gwrdd â safonau mynediad Rhan M, neu safonau cartrefi gydol oes yn cael eu hategu gydag isadeiledd

hygyrch a chysylltiadau cymunedol ac felly'n cyfrannu at oes cymdogaethau.

## Arf Cyfathrebu

Arfau cyfathrebu ydy datganiadau mynediad yn bennaf yn dangos bod egwyddorion dyluniad cynhwysol a mynediad i bobl wedi cael eu hystyried drwy gydol y broses ddatblygu. Dylen nhw alluogi cymunedau lleol, grwpiau mynediad ac eraill i ddeall rhesymeg am y cynnig datblygu ac felly cyflwyno'u cynigion yn effeithol.

## Y Datganiad Mynediad fel Dogfen Fyw

Dylid ystyried datganiad mynediad yn ddogfen fyw ddi-dor sy'n 'tyfu' gyda'r prosiect fel yr amlinellir yn *'Access Statements: achieving an inclusive environment by ensuring continuity throughout the planning, design and management of buildings and space.'* (CHA) (nawr Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – CCHA 2004). Gan gychwyn ar lefel strategol, bydd y datganiad yn cofnodi ac egluro'r penderfyniadau ar hygyrchedd o ran cynllunio, dylunio a rheolaeth barhaus o gamau prosiect. Felly, er y dylai datganiadau dylunio a mynediad sydd eu hangen gyda cheisiadau cynllunio gyfeirio'n benodol at gam cynllunio'r broses ddatblygu, dylai hyn wedyn gael ei ddatblygu yn ystod cam rheoliadau adeiladu (er nad ydy datganiadau mynediad yn orfodol ar gyfer rheoliadau adeiladu). Dylai'r rhain ffurfio rhan o'r ddogfen fyw ar fynediad y gall perchnogion adeiladau a rheolwyr cyfleuster eu defnyddio.

Mae hyn yn debyg i ofyniad Adeiladau Newydd MAN 04 BREEAM: 'I ddylunio, cynllunio a chyflenwi adeiladau hygyrch, ymarferol a chynhwysol mewn ymgynghoriad â darpar ddefnyddwyr adeiladau a'r rhai cyfredol a rhanddeiliad eraill.'

## Dylai Datganiadau Mynediad:



- Gychwyn gyda'r defnyddwyr – Y defnydd mae pobl yn ei wneud o adeilad, y bobl sy'n bwysig nid dim ond yr adeilad
- Cryfhau a chynorthwyo ceisiadau cynllunio

- Helpu dylunwyr i ganfod y rhwystrau yn gynnar
- Helpu awdurdodau cynllunio i gwrdd â Dyletswyddau Cydraddoldeb drwy wrthod ceisiadau sydd ddim yn gynhwysol
- Canfod atebion cynaliadwy a chynhwysol
- Trin cyfarwyddyd cyffredinol a'r safonau gofynnol fel man cychwyn
- Egluro'r rhesymau dros wyro oddi wrth arferion da (a sut y gellir lliniaru hyn), nid cyfiawnhau mynediad gwael
- Fel lleiafswm, osgoi gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr yr adeilad a allai olygu mynd yn uwch na safonau gofynnol dylunio'r adeilad

Dim ond os glynir at yr ymrwymïadau yn y datganiad dylunio a mynediad yr hybir dyluniad cynhwysol. Os oes amodau ar y manylion, dylai swyddogion cynllunio gorfodol sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni.

## **Amodau Cynllunio a chytundebau adran 106**

Gall awdurdodau cynllunio lleol osod amodau mynediad ar ganiatad cynllunio neu nodi rhannau o'r datganiad mynediad drwy amodau. Rhaid i'r amodau cynllunio fod yn angenrheidiol, perthnasol i'r cynllunio ac i'r datblygiad, yn amodau y gellir eu gorfodi, yn rhai manwl gywir ac yn rhai rhesymol. Gellir defnyddio cytundebau 106 i sicrhau cyllid ar gyfer gwella mynediad cynhwysol yn yr amgylchedd ehangach.

## **Asesu Effaith Cydraddoldeb**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ail-gadarnhau'r ymrwymiad bod angen Asesu Effaith Cydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus. Mae angen cael Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EIA) er mwyn sicrhau bod yr holl broses o lunio polisi a phenderfyniadau yn deg a chydradd. Wrth baratoi'r EIA rhaid ystyried:



- Ydy pwrpas y newid yn y polisi / penderfyniad yn cael ei ddatgan yn glir?
- Ydy'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan y polisi / penderfyniad wedi cael eu cynnwys yn y broses?
- Ydy darpar effeithiau positif a negyddol wedi cael eu nodi?
- Oes cynlluniau i liniaru unrhyw effaith negyddol?
- Oes cynlluniau i fonitro gwir effaith y cynigion?

*Gweler:* [www.equalityhumanrights.com/wales](http://www.equalityhumanrights.com/wales)

### **Gweithgaredd DPP:**



Ystyried EIA diweddar ar gyfer eich ardal. Faint o'r pwyntiau hyn y mae'r EIA yn delio â nhw? Neu baratoi model EIA ar gyfer datblygiad polisi neu gynnig.

### **Cynllunio, Rheoli Adeiladu a Phrifyrdd**

Er bod swyddogaeth benodol gan bob un, mae'r rolau hynny yn aml yn gorgyffwrdd pan ddeuir at faterion mynediad; bydd pob un yn dylanwadu ac yn effeithio ar ddarparu amgylchedd cynhwysol. Er mwyn sicrhau cysondeb yn y dull o fynd i'r afael â'r broblem, a sicrhau na ddiystyriwr unrhyw fater, rhaid cysylltu yn gyson a mabwysiadu proses i ystyried materion sy'n gorgyffwrdd, a chael swyddog traws-adrannau a bod yn unedig wrth ddelio gyda grwpiau mynediad.

### **Gweithgaredd DPP:**



Mae rhai cynllunwyr yn dadlau mai rheoliadau adeiladu sy'n delio â materion mynediad. Treuliwch ychydig o amser yn ystyried – ar gyfer datblygiad hamdden neu fasnachol canolog eu maint – sawl problem o ran hygyrchedd fyddai'n rhy hwyr i ddelio â nhw ar adeg rheoliadau adeiladu?

## **Gweithredu Arfaethedig Llywodraeth Cymru ar Fframwaith Gweithredu**

### **Byw'n Annibynnol:**

- Comisiynu adolygiad o effeithiolrwydd Datganiadau Dylunio a Mynediad.
- Defnyddio'i grym datganoledig i ymateb i adolygiad Datganiad Dylunio a Mynediad ac unrhyw dystiolaeth arall o ran rheoliadau Adeiladu.
- Gweithio gyda CEW (Rhagoriaeth Adeiladu Cymru) ac RSAW (Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru) i hyrwyddo rhagoriaeth ym maes dylunio cynhwysol drwy raglen o ddigwyddiadau hyfforddi perthnasol i'r diwydiant adeiladu.
- Hyrwyddo Nodyn Dylunio Cynhwysol yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS) fel enghraifft o arferion da ar draws Adrannau Llywodraeth Cymru.
- Gofyn am ddylunio cynhwysol mewn cyfleusterau gofal iechyd.
- Rhannu arferion da o ran ymglymiad.
- Gweithio gyda phartneriaid drwy'r Siarter Newid Lleoedd i ganfod cyfleoedd i ddarparu'r cyfleusterau hyn ar hyd a lled Cymru.

### **Awgrymiadau ar gyfer Cynhwysiad**



- Hyfforddi staff
- Ystyried pobl anabl mewn polisiau
- Ymgysylltu â phobl anabl
- Cynllunio a rhagweld ymlaen llaw
- Darparu amgylchedd cynhwysol
- Hysbysebu fformatau amgen a chymhorthion atodol
- Ymgynghori ag arbenigwyr pan fo angen

## Enghreifftiau



Pan benderfynodd perchnogion newid defnydd eu busnes a chael 'deli' ar y llawr isaf a bwyty ar yr ail lawr, gosododd awdurdod cynllunio Sir Benfro amod arnyn nhw eu bod yn darparu byrddau llawr llawr ar gyfer cwsmeriaid anabl nad oedd yn gallu mynd i fyny'r grisiau. Erbyn hyn, mae pobl anabl a chwsmeriaid heb fod yn anabl yn defnyddio'r byrddau ar y llawr gwaelod.

Gwnaeth Heddlu Gogledd Cymru gamgymeriadau wrth ail-wampio'r toiledau yn adeilad eu pencadlys ond fe wnaethon nhw ymateb yn bositif i bryderon pobl anabl drwy greu toiled hygyrch gwbl newydd yng nghyntedd yr adeilad gan ymgynghori â Grŵp Mynediad Arfon ar y cam cynllunio ac yn ystod y cyfnod adeiladu er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus.

## Gweithgareddau DPP



Meddyliwch am lwybr troed yr ydych yn ei nabad yn dda. Ysgrifennwch ddisgrifiad o'r llwybr gan nodi anawsterau mynediad, er enghraifft i ddefnyddiwr cadair olwyn, person dall neu rannol ddall ayb. Y tro nesaf byddwch yn cerdded ar hyd y llwybr hwnnw, ystyriwch y llwybr o safbwynt mynediad. Nodwch nifer yr anawsterau mynediad ar eich rhestr flaenorol ac unrhyw rwystr wnaethoch chi ei fethu neu ddim sylwi arno.

Defnyddiwch astudiaeth achos i ystyried datblygiad newydd diweddar. Yn gyntaf, edrychwch ar y cais cynllunio a'r datganiad dylunio a mynediad, ar unrhyw amod ayb. Yna, ewch i weld y datblygiad. Rhestrwch y pwyntiau lle cynlluniwyd a darparwyd mynediad yn dda; a manau lle mae mynediad yn anodd. Sut gallai hyn ddylanwadu ar asesiad o gais cynllunio yn y dyfodol?

Gellir amrywio hyn drwy wahodd aelodau o grŵp mynediad i ddod gyda chi i ymweld â'r safle fel ymarfer hyfforddi.

## Cwestiynau mynych

### **C.** ‘Os mai canllawiau yn unig ydy’r rhain – a ellir eu gorfodi?’

**A.** Dylid ystyried canllawiau yn briodol a’u defnyddio onibai bod ateb gwell i’w gael. Yn ddiweddar, dyfarnodd Barnwr Uchel Lys bod penderfyniad Bwrdeistref Llundain i anwybyddu cyfarwyddyd cenedlaethol o ran y defnydd o balmant cyffyrddadwy, i helpu pobl gyda namau ar y golwg, yn anghyfreithlon.  
(<http://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Admin/2012/2970.html>)

### **C.** Ni fydd datblygwyr ddim ond yn gwneud cyn lleied ag sydd rhaid – oes unrhyw bwynt awgrymu mwy?

**A.** Yn ystod modiwlau hyfforddi ‘Y Ffordd Ymlaen’, gofynnwyd i gynllunwyr geisio godi’r mater o wella mynediad mewn trafodaethau cyn gwneud cais ac fe ddwedon nhw bod yr ymateb positif wedi’u synnu o’r ochr orau o’u rhan nhw yn enwedig os oedden nhw’n gallu dangos y manteision i ddefnyddwyr a chyflawni hynny ar gost gymharol isel.

### **C.** Sut gallwn ni wneud mwy i sicrhau hygyrchedd heb yr adnoddau i ddilyn ymlaen â materion mynediad neu orfodi’r amodau?

**A.** Gellir ystyried nifer o dulliau o fynd ati, megis defnyddio grwpiau mynediad ac anabledd i roi adborth ar ddatblygiadau newydd. A allwch chi ddefnyddio gyrwyr eraill megis adeiladau newydd ac asesiadau ar gynaliadwyedd a ddefnyddir gan BREEAM sy’n cynnwys hygyrchedd? Hefyd, ystyriwch y flaenoriaeth a roddir i hygyrchedd o’i gymharu â materion eraill megis cadwraeth – er enghraifft, sut mae gorfodi’r defnydd o ddeunyddiau priodol mewn ardal gadwraeth yn cymharu â gorfodi hygyrchedd datblygiad newydd?

### **C.** Sut allwch chi gael tystiolaeth i ddangos bod y sylw dyladwy wedi cael ei roi i ddyluniad adeilad?

**A.** Defnyddio Datganiad Mynediad fel arf i gofnodi a chyfleu’r hyn sydd wedi cael ei drafod – cyfeiriadau at arferion da; pa safonau a chanllawiau arferion da sydd wedi’u cyflawni; y modd yr aseswyd hygyrchedd adeilad newydd; am farn pwy y gofynnwyd. Cofiwch mai un agwedd ydy dyluniad – y man cychwyn – mae gweithredu’r dyluniad, ei reoli a’i gynnal a chadw hefyd yn hanfodol. Gall proses datganiad mynediad fod yn arf defnyddiol hyd yn oed os na ofynnwyd yn ffurfiol am ddatganiad.

**C. Sut mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cysylltu â rheoliadau dylunio adeiladau?**

**A.** Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar gyflogwyr a darparwyr gwasanaeth i ystyried y rhwystrau (ffisegol ac anffisegol) allai pobl anabl eu hwynebu wrth geisio gael mynediad i wasanaeth neu gyflogaeth. Bydd adeilad hygyrch sy'n cwrdd â rheoliadau dylunio adeilad ac arferion da yn help i gwrdd â dyletswyddau Deddf Cydraddoldeb.

**C. Ydy Pecyn "Doc M Pack" o gwmni cyflenwi offer gwaith plwmwr masnachol yn cyflawni goblygiadau yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb?**

**A.** Nac ydy. Camgymeriad ydy tybio bod cynnyrch yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r dyletswyddau yn ôl y Ddeddf yn llawer ehangach a dydy 'pecyn' o'r fath ddim yn cwrdd â'r cyfryw ddyletswyddau. Hefyd, efallai nad ydy rhai "Pecynnau Doc M" yn cwrdd yn llawn hyd yn oed â'r safonau gofynnol na safonau arfer da, felly bydd rhaid gwirio gyda'ch Grŵp Mynediad neu Swyddog Mynediad a / neu ystyried manylion Adran 12.2 Safonau Prydeinig BS 8300.

**C. Beth ydy'r ganran ofynnol o fannau parcio hygyrch sydd rhaid eu darparu?**

**A.** Ni fydd canran syml yn cwrdd â'r gofynion. Bydd angen i chi ystyried Adran 4 Safonau Prydeinig BS 8300 yn ofalus, gan nodi'n arbennig paragraffau 4.2.1.1 hyd 4.2.1.6 a fydd yn eich galluogi i amcangyfrif y nifer priodol o fannau hygyrch wedi'u marcio'n llawn a manau lletach, heb eu marcio. Dylid monitro i asesu a ydy'r ddarpariaeth yn ddigonol.

**C. Sut gallwn ni hybu mynediad i bawb pan fo gofynion pobl anabl mor wahanol?**

**A.** Dyma'r prif reswm pam y dylid ymgynghori gyda grŵp mynediad sy'n seilio'r cyngor y maen nhw'n ei rhoi ar fynediad cynhwysol ar brofiad eu haelodau o bob math o nam. Mae'r problemau y mae dylunwyr ayb.yn eu canfod yn aml wedi cael eu datrys eisoes gan fudiadau anabledd yn cydweithio e.e. dull cynhwysol Y Cyd-Ddatganiad ar Ddyluniad Stryd a goblygiadau arwynebedd sy'n cael ei rannu sy'n cael cefnogaeth mudiadau anabledd ar draws y sector yn cynrychioli pobl ag ystod eang o anabledd gan gynnwys nam ar y synhwyrau, symudedd, iechyd meddwl a gwybyddol.



# 4 Adnoddau Ymarferol

## Yn yr adran hon byddwn yn ystyried:

- Anabledd a iaith
- Hyfforddi a datblygiad staff
- Cyfathrebu
- Cyfarfodydd a digwyddiadau hygyrch
- Llogi cyfieithydd
- Cynhyrchu deunydd hygyrch
  - Deunydd Hawdd ei Ddarllen
  - Cyfarwyddyd Print Clir
  - Cynhyrchu fformatau hygyrch
  - Ffilmiau, Fideos a DVDs
- Cyfeiriadau, tudalennau gwefan ac ymgynghorwyr mynediad achredig

## Anabledd a iaith

Gall rhai geiriau ac ymadroddion ‘traddodiadol’ a ddefnyddir i sôn am anabledd fod yn amhriodol, gydag arwyddocad negyddol neu hyd yn oed yn sarhaus. I’r rhai ohonoch sy’n newydd i faes hawliau anabledd gall yr ieithwedd fod yn anodd ac arwain at ofn dweud ‘rhywbeth o’i le’ yn anfwriadol; mae anghytundeb hyd yn oed ymhlith grwpiau o bobl anabl pa dermau i’w defnyddio a’r termau na ddylid eu defnyddio.

Mae Anabledd Cymru yn defnyddio ‘Canllawiau ar y defnydd o dermau anabledd’ Yn seiliedig ar y Model Cymdeithasol ac ar ôl cysylltu gyda phobl anabl, mae’r canllawiau yn datgan sut gellir defnyddio’r Gymraeg a’r Saesneg i leddfu’r broblem ac atgyfnerthu hinsawdd hawliau anabledd yng Nghymru. Caiff hyn ei grynhoi yn y gosodiad agoriadol:

“Unigolion, nid cyflwr meddygol, ydy pobl anabl”

Ceir dyfyniad o Ganllawiau Anabledd Cymru yn **Atodiad 2** i’ch helpu i ddatrys y dryswch a galluogi pawb i ddangos parch a chwarteisi drwy

ein defnydd o eiriau ac ymadroddion yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Wrth reswm, mae newid ein hagwedd at bobl anabl yn gofyn am fwy na dim ond defnyddio'r geiriau 'cywir'. Mae'n golygu, taclo'r gwerthoedd a'r tybiaethau tu ôl i'r ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio. Mae agwedd bositif yn cael ei adlewyrchu mewn iaith bositif.

## **Hyfforddiant a datblygiad staff**

Gellir defnyddio hyfforddiant traddodiadol wyneb yn wyneb ar gyfer datblygiad staff, ond hefyd gellir cyflawni hyn drwy ddarllen strwythuredig, DVDs, e-ddysgu, y defnydd o fentora neu gyfleoedd cysgodi gweithiwr. Syniadau ar gyfer DPP – datblygiad proffesiynol parhaus – darperir gweithgareddau yn y pecyn cymorth hwn.

Dyma ddau gyhoeddiad defnyddiol, er eu bod wedi eu bwriadu i gyfeirio at broffesiynau eraill:

'A National Framework for Disability Equality & Etiquette Learning (DEEL) for Health and Social Care Services,' Comisiwn Hawliau Anabledd ac Adran Iechyd, 2007; a 'Disability Equality and Awareness Training Framework for Transport Staff', Pwyllgor Ymgynghorol Cludiant Pobl Anabl (DPTAC), 2008.

Mae'r ddau fframwaith wedi'u seilio ar y Model Cymdeithasol, yn gydnaws â fframweithiau cymwysterau galwedigaethol ac maen nhw'n canolbwyntio ar ddeilliannau hyfforddi / dysg o ran y gwasanaeth a gyflenwir; dyna'r gwahaniaeth mae dysg yn ei wneud i'r hyn mae'r staff yn ei wneud yn ymarferol a sut mae hyn yn effeithio ar brofiad person anabl.

Dylai datblygiad staff o ran anabledd gynnwys llais ac, yn ddelfrydol, bresenoldeb pobl anabl fel hyfforddwyr neu ymgynghorwyr addysgol.

Gall datblygiad staff fod yn gostus a gweithgareddau'n sy'n dibynnu'n drwm ar adnoddau, ac os ydy'n methu â chyflawni'r canlyniadau a ddymunir, does fawr o fantais yn ei wneud o gwbl. Felly, dylai fod yn fesuradwy, ei fonitro'n gyson a'i asesu yn erbyn y canlyniadau dymunol, ac yn rhan o broses sefydlu, goruchwylio ac Adolygu Perfformiad Rheoli sefydliad.

Ceir darnau defnyddiol o '*A National Framework for Disability Equality &*

*Etiquette Learning (DEEL) for Health and Social Care Services,* yn atodiad 3:

- **Taflen Gyfarwyddyd 1:** Mae 'Etiquette' Anabledd Cyffredinol' yn rhoi cyfarwyddyd ar agwedd, ymddygiad a sgiliau cyfathrebu unrhywun sy'n ystyried ymgysylltu â pherson anabl.
- **Taflen Gyfarwyddyd 2:** Mae 'Etiquette Anabledd Nam' yn rhoi cyfarwyddyd a gwybodaeth benodol ar gyfathrebu a gweithio gyda phobl anabl ag ystod o namau a'r gofynion mynediad cysylltiedig.

## **Cyfathrebu**

Gwneud hi'n hawdd i bobl gyfathrebu gyda chi er enghraifft:

- Cynnig ystod o ffyrdd y gall y cyhoedd gyfathrebu gyda chi gan gynnwys e-bost, post, dros y ffôn, neges destun, siarad drwy deipio ('type-talk') sy'n defnyddio trydydd parti i deipio ateb y person sy'n gallu clywed. Hysbysebu'r opsiynau hyn. Hyfforddi staff i ddefnyddio ffôn destun a 'type talk'.
- Sicrhau bod eich gwefan a'r wybodaeth a ddarperir yn hygyrch, ond ddim yn dibynnu ar hyn i gyfleu gwybodaeth gan ei fod yn eithrio'r rhai sydd ddim yn gallu mynd ar y rhyngwrwyd nac yn gallu ei ddefnyddio.
- Cynnig system uchel seinydd mewn cyfarfodydd i wella lefel sain a lleihau sŵn cefndir.
- Darparu system anwytho neu system debyg, sicrhau ei bod yn gweithio a bod staff yn gwybod sut i'w weithredu ond sylwch na fydd o fantais i bobl sy'n fyddar neu'r rhai sydd â nam ar eu clyw.
- Ceir awgrymiadau ar gyfathrebu gydag unigolion yn atodiad 3.

## **Cyfarfodydd a Digwyddiadau Hygyrch**

Rhaid ystyried gofynion hygyrchedd ar gyfer pob agwedd o'r digwyddiad a'i integreiddio yn y broses cynllunio'r digwyddiad o'r cychwyn cyntaf. Ni ddyliai unrhyw berson anabl gael ei eithrio/ei heithrio o gyfarfod na digwyddiad oherwydd eu nam neu broblemau mynediad. Mae **Grŵp Mynediad Pobl Anabl Manceinion** wedi cyhoeddi

canllawiau cynhwysfawr ar gyfer trefnu 'Cyfarfodydd a Digwyddiadau Hygyrch'.

Yn **Atodiad 4**, ceir rhestr wirio o rai o'r prif bwyntiau.

## **Llogi cyfieithydd**

**Cymdeithas Cyfieithwyr Iaith Arwyddion** - (mae siarad yn uniongyrchol gyda chyfieithwyr yn aml yn rhatach na llogi drwy asiantaeth).

<http://www.asli.org.uk/interpreter-search-p3.aspx>

Gall **Action on Hearing Loss** ddarparu gwybodaeth a chymorth i hurio Pobl Broffesiynol 'Language Service Professionals (LSPs)' sy'n cynnwys dehonglwyr drwy iaith arwyddion, darllenwyr gwefusau, cofnodwyr electronig a throsglwyddwyr geiriau llafar i destun.

<http://www.actiononhearingloss.org.uk/supporting-you/communication-support/book-communication-support.aspx>

## **Cynhyrchu deunydd hygyrch**

Dylai'r holl ddeunydd ysgrifenedig fod ar gael mewn print clir, mewn iaith glir a bod yn hawdd i'w ddarllen, neu fod crynodeb ar gael mewn fersiwn hawdd i'w ddarllen.

Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau yng Nghymru bolisi bod yr holl wybodaeth ar gael yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Oes gennych chi bolisi hefyd ar greu fformatau dwyieithog hygyrch megis Braille neu ddogfennau sain?

Byddwch yn ofalus wrth gyfieithu termau anabledd oherwydd ei bod yn anodd cyfieithu rhai geiriau a gall termau anghywir weithiau fod yn anfwriadol sarhaus. (gweler Anabledd a iaith uchod).

## **Deunydd Hawdd ei Ddarllen**

- Cadwch y wybodaeth yn fyr, neu rannu'r wybodaeth i fwy nag un ddogfen neu ddarparu crynodeb
- Defnyddiwch frawddegau byr
- Dylai pob brawddeg gynnwys un syniad ac un ferf yn unig

- Dylech hepgor unrhyw eiriau diangen. Er enghraifft, dwedwch ‘14 diwrnod’ yn hytrach na ‘chyfnod o 14 diwrnod’
- Dylid cynnwys rhestr termau yn egluro talfyriadau a ‘jargon’ ar ddiwedd y ddogfen
- Defnyddiwch eiriau llawn yn hytrach nac acronymau
- Os bydd rhaid defnyddio geiriau neu syniadau anodd, eglurwch eu hystyr – gwnewch hyn yn y frawddeg nesaf nid yn yr un frawddeg
- Defnyddiwch liw yn y testun sy’n cyferbynu â lliw’r papur, ac ystyried rhannu pwyntiau gyda lliw gwahanol neu deip ‘trwm/duach’
- Defnyddiwch luniau i gynorthwyo ystyr eich testun.

*Ffynhonnell:* Swyddfa Materion Anabledd

## **Cyfarwyddyd ar brint clir**

- Dylai maint testun dogfen fod yn 14 pwynt, lleiafswm 12 pwynt.
- Dylai’r ffont a ddewiswch fod yn glir, yn osgoi unrhywbeth rhy ffansi
- Dylai holl gorff y testun gael ei alinio i’r chwith
- Defnyddiwch ‘trwm’ (‘bold’) yn gynnil, dim ond amlygu ychydig o eiriau yn hytrach na pharagraff
- Cadwch gynllun y testun yn glir, yn syml a chyson
- Peidiwch â defnyddio blociau o brif lythrennau a cheisio peidio â defnyddio gormod o lythrennau italig na thanlinellu
- Ni ddylid rhoi testun ar ddelweddau
- Sicrhau bod y papur yn ddigon trwchus fel na ellir gweld drwyddo, ac ni ddylai fod yn bapur sglein nac adlewyrchol
- Sicrhau bod gwahaniaeth amlwg rhwng y testun a’r cefndir
- Dylai’r holl destun fod yn wynebu’r un ffordd ar y dudalen
- Dylai’r bwllch rhwng colofnau’r testun fod yn ddigon amlwg
- Dylai unrhyw wybodaeth sydd mewn lliw neu’n cael ei chyfleu drwy ddelweddau gael ei disgrifio mewn geiriau hefyd.

*Ffynhonnell:* RNIB

## **Cynhyrchu fformatau hygyrch**

**Pa fformatau ddylen ni eu paratoi a sawl un?**

Mae hyn yn dibynnu ar y math o wybodaeth sydd gennych, ac yn bwysicach, gofynion eich cynulleidfa. Os ydych yn darparu gwybodaeth ar gyfer grŵp neu unigolion, y ffordd orau i gwrdd â'r anghenion hynny ydy gofyn iddyn nhw pa fformat sydd orau ganddyn nhw a chadw cofnod o hyn. Mae'n well gan rai dderbyn y wybodaeth yn electronig ymlaen llaw neu mewn fformat sain a chael dogfennau byr megis agenda mewn Braille neu brint bras i'w defnyddio mewn cyfarfod.

Os na allwch asesu gofynion eich cynulleidfa ymlaen llaw, gallech gynhyrchu nifer briodol ar y cychwyn yn seiliedig ar ofynion blaenorol. Mae'n gyflymach gynhyrchu rhagor o gopiâu na thrawsgrifio dogfen newydd. Rhowch wybod i bobl bod fformatau hygyrch ar gael ar gais.

Mae gan rai Awdurdodau ddull mewnol o gynhyrchu fformatau hygyrch, er y byddai rhaid gofyn ymlaen llaw, yn yr un modd â phan bydd galw am argraffu nifer fawr o ddogfennau printiedig. Efallai bod gan eraill gyflenwyr cyson. Sicrhewch fod yr holl staff yn gwybod sut a ble i gael hyd i'r wybodaeth hon.

Gall RNIB Cymru ddarparu cyngor ar gynhyrchu fformatau hygyrch a chyflenwi gwasanaethau trawsgrifio.

## **Ffilmiau, Fideos a DVDs**

Dylai'r rhain fod ar gael gyda Iaith Arwyddion Prydain, is-deitlau, disgrifiad sain a naratif.

Gall Action on Hearing Loss ddarparu gwybodaeth a chyflenwyr iaith Arwyddion Prydeinig a fformatau is-deitlau.

Gall RNIB ddarparu gwybodaeth ar ddisgrifio sain a naratif.

## **Cyfeiriadau a Gwybodaeth bellach**

Nodyn Cyngor Technegol 12; Dylunio Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009

Datganiadau Dylunio a Mynediad (taflen)  
Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009

Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru  
Comisiwn Dylunio Cymru, 2011

Cyfarwyddyd ar Ddatganiad Mynediad (o ran ceisiadau cynllunio a  
chaniatad adeiladau rhestredig)  
Cymorth Cynllunio Cymru a Grwpiau Mynediad Cymru, 2010

Llythyr Eglurio Polisi CL- 03 -10 – Datganiadau Dylunio a Mynediad  
Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010

Cynllunio a mynediad ar gyfer pobl anabl: Canllaw arfer da  
Swyddfa'r Dirprwy Prif Weinidog, 2003

BS8300 - A1, 2010 – Dyluniad adeiladau a'r llwybrau i fynd atyn nhw i  
gwrdd ag anghenion pobl anabl.

Sefydliad Safonau Prydeinig, 2010 (cost: £240 neu £120 i aelodau  
SSP)  
Ffôn: 0208 996 9001 E-bost: [orders@bsigroup.com](mailto:orders@bsigroup.com)

Dogfen a Gymeradwyd i Ran M: Mynediad i a'r Defnydd o Adeiladau  
Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2010

Symudedd cynhwysol: Canllaw arferion da ar fynediad i gerddwyr ac  
isadeiledd cludiant  
Adran Cludiant, 2002

Llawlyfr ar gyfer Strydoedd 2  
Department for Transport, 2010

Strydoedd Cynhwysol: egwyddorion dylunio ar gyfer pobl ddall neu  
rannol ddall Cŵn Tywys, 2010

Egwyddorion Dyluniad Cynhwysol  
Y Comisiwn dros Bensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig (CABE),  
2006

## **Gwefannau defnyddiol**

Manylion cyswllt Grwpiau Mynediad yng Nghymru:

<http://www.accessgroupresources.co.uk/index.php/access-groups/find-an-access-group/wales>

Canolfan Amgylcheddau Hygyrch:

<http://www.cae.org.uk/>

Cymorth Cynllunio Cymru:

<http://www.planningaidwales.org.uk/>

Porth Cynllunio (Cymru):

<http://www.planningportal.gov.uk/general/glossaryandlinks/links/wales>

## **Ymgynghorwyr mynediad achredig**

Cofrestr Genedlaethol o Ymgynghorwyr Mynediad

<http://www.nrac.org.uk>

Cynllun Ymgynghorwyr ar Amgylcheddau Cynhwysol, Sefydliad Syrfewyr Siartredig.

<http://www.rics.org>



# Atodiad 1:

## **“Y Ffordd Ymlaen” – “Cynllunio ar gyfer Mynediad Cynhwysol yng Nghymru” – Dull Cyfryngu**

Proses ydy ‘cyfryngu’ sy’n galluogi partiön i ddeall safbwyntiau ei gilydd yn well ac yn enwedig deall sut mae’r mater(ion) sy’n eu hwynebu yn herio’u anghenion a’u buddiannu. Yn aml, caiff y broses ei hystyried yn un sy’n chwilio am atebion, ond gall hefyd, o’i defnyddio’n dda, ddatblygu perthynas a thrawsnewid y modd y mae pobl yn cyd-ddelio â’u problemau, yn enwedig os oes angen i’r berthynas honno barhau. Mae’n help i’r broses gael trydydd parti yno i hwyluso’r drafodaeth. Gall y trydydd parti (heb unrhyw ddiddordeb personol yn y canlyniadau) gynorthwyo’r ddwy ochr drwy broses strwythuredig sy’n annog gonestrwydd, trylowyder a’r awydd i ddatrys y broblem. Bydd dull o drawsffurfio a chanolbwyntio ar atebion yn annog y partiön i symud yn gyflym ac yn llwyddiannus i ganfod yr hyn sydd angen arnyn nhw a’r hyn sydd eisiau arnyn nhw – sut gallai fod – a defnyddio’r adnoddau sydd eisoes yn eu meddiant i wneud i hynny ddigwydd.

Byddai defnyddio arbenigwyr o grwpiau mynediad anabledd ynghyd ag arbenigwyr o adrannau cynllunio yn y *berthynas barhaus* a’r broses o sicrhau bod polisïau a phenderfyniadau cynllunio yn gymhwysol a bod adeiladau a lleoliadau yn hygyrch, yn un o’r canlyniadau o broses cyfryngu cadarn. Canlyniad arall ydy datrys y mater dan sylw. Mae’r ddau yn bwysig ac yn rhai y gellid eu cyflawni – datrys problemau a thrawsnewid ac adeiladu perthynas waith dda a chynaliadwy.

### **Ymhlith y canlyniadau ar gyfer POB cyfranogwr yn y broses cyfryngu mae:**

- I deimlo’n fwy hyderus, gwybodus a medrus i allu cymryd rhan yn effeithiol mewn trafodaethau ar faterion anodd a sylweddol o ran mynediad a chynhwysiad.
- I deimlo’n rhan o’r broses ac i allu cymryd rhan effeithiol yn y

broses i ddeall y problemau a datblygu camau gweithredu.

- I allu mynegi anghenion mynediad a sicrhau eu cyflawniad pan fyddan nhw'n cymryd rhan ymhob sesiwn.
- Dod o hyd i ffyrdd i sicrhau bod pobl yn gwrando ar eu barn a bod hwythau yn gwrando ar farn pobl eraill.
- Gwerthfawrogi mewnbwn ac arbenigedd yr holl gyfranogwyr
- Nodi sut a phryd byddai angen i bartïon drafod a delio â materion mynediad – a chael dull o fynd ati.
- Datrys gwahaniaethau hirdymor rhwng y fforwm mynediad/anabledd lleol a'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau perthynas mwy adeiladol a chytûn.
- Deall pa mor bell mae'n nhw cyrraedd yn y broses a hefyd deall SUT gweithiodd y broses – i fod yn glir bod gweithgareddau, arfau a dulliau o fynd ati a fydd yn sicrhau gwell atebion a gwell perthynas.
- Ac wrth i'r perthnasau hyn gryfhau ac ar ôl i gynlluniau peilot ddod i ben, bydd yr ymglymiad a'r berthynas yn arwain at benderfyniadau cynllunio doeth ac effeithol a dealltwriaeth o sut i gael y canlyniadau gorau.

### **Pam Cyfryngu a beth ydy'r broses?**

Yn y gorffennol, bu anghydweld rhwng grwpiau mynediad ac awdurdodau lleol ar faterion cynllunio. Gall ymyriad sensitif fel proses cyfryngu 'gychwyn pethau' a chanfod dulliau newydd o ddeall anawsterau'r gorffennol, eu hangofio a dod o hyd i ffyrdd newydd o'u datrys ac i'r ddwy ochr barchu anghenion ac arbenigedd y naill ar llall. Hwn fydd sail cydweithredu mwy effeithiol yn y dyfodol. Bydd y dull hwn o fynd ati yn arbed llawer o amser ac ymdrech i grwpiau mynediad ac awdurdodau cynllunio lleol fel ei gilydd yn yr hirdymor.

Gall partïon medrus weithio drwy'r broses eu hunain, ond yn aml, mae'n ddefnyddiol cael cyfryngwr annibynnol cymwys i arwain y broses a chynorthwyo POB parti, a thrwy hynny sicrhau bod pawb yn ymddiried yn nhegwch a chydaddoldeb y broses.

## Paratoi ar gyfer Cyfryngu

Mae prosiect 'Y Ffordd Ymlaen' wedi nodi camau cychwynnol a dilynol a nodir y rhain isod gyda mwy o fanylion ar sut gallai'r broses cyfryngu (a chymorth arall) weithio:

- 1.** Nodi'r Awdurdodau Lleol a'r grwpiau o bobl anabl a fydd yn cymryd rhan (efallai bydd llawer o'r rhain wedi derbyn hyfforddiant blaenorol) –  
Pwy ydy'r rhanddeiliaid?  
Ydy pob parti wedi'i gynrychioli'n dda?
- 2.** Sicrhau bod pawb yn glir ar y cychwyn am y materion y maen nhw am eu cynnwys yn y broses cyfryngu.  
Oes angen trafod mater penodol o ran adeilad neu gynllunio?  
Ydy e'n fater parhaus ynglyn â safle arbennig?  
Ydy e'n fater ynglyn â pherthynas a chydweithio da?
- 3.** Nodi a ellir delio â'r materion hyn drwy gyd-gyfarfod a thrafod gyda thrydydd parti y cytunwyd arno/arni yn cadeirio pob parti wedi ymrwmo i gydweithio ac yn meddu ar sgiliau
- 4.** neu a ddylid neu a ellid defnyddio trydydd parti allanol hanes unrhyw anghydfod mewn trafodaethau'n gorffennol emosiynau cryf materion arbennig o gymhleth neu ddwys
- 5.** Os oes angen cyfryngwr – ei ddethol/ei dethol a'i benodi/ei phenodi ar yr adeg hon neu nodi'r cadeirydd a'r sgrifellwr.
- 6.** Cadarnhau bod pob parti yn deall amserlen y broses ac yn deall y broses ei hun
- 7.** Cynnal y broses cyfryngu – gweler yr enghraifft isod a'r manylion sy'n dilyn
- 8.** Paratoi adroddiad am yr hyn y cytunwyd arno a chofnodi bod pawb wedi deall y broses barhaus
- 9.** Ystyried y broses gyda phob parti – nodi'r uchelfannau a'r iselfannau ac egluro'r arfau a'r technegau – cynnwys y grwpiau yn natblygiad ac adeiladu perthynas.

Gwerthuso'r hyn weithiodd yn y broses, beth hoffai'r partïon ei barhau i wneud a beth arall allai helpu

## **Y Broses Cyfryngu**

- 1.** Cwrdd â Pharti Un – Cwrdd â Pharti Dau
- 2.** Cynllunio'r Broses
- 3.** Dod â'r Partïon at ei gilydd – Cyflwyniadau, yr agenda
- 4.** Ystyried y Materion – Nodi'r hyn y mae'r partïon ei angen ac yn ei ddymuno
- 5.** Canfod yr opsiynau a'r posibiladau ar gyfer symud ymlaen
- 6.** Profi'r opsiynau a chael cytundeb

*Ffynhonnell:* GroupWorks Associates

## **Y Broses Cyfryngu:**

Os bydd cyfryngwr wedi'i ddewis, bydd e/hi yn hwyluso'r broses o hyn ymlaen. Os ydy'r grwpiau wedi cytuno i reoli'r broses yn fewnol, mae'n dal yn werth cael rhywun (y bydd y ddau barti'n gytûn ar y dewis) o leiaf yn cadeirio'r broses er mwyn sicrhau mewnbwn gan bob parti a bod y broses (yr agenda) yn cael ei rheoli.

- 1.** Cwrdd â'r partïon ar wahân ar y cychwyn – gallai'r rhain fod yn grwpiau bychain neu unigolion yn cynrychioli'r gwahanol safbwyntiau ar y materion a ddewiswyd – eglurir y broses a gwrandewir ar eu barn. Gallai hyn gymryd un neu fwy o gyfarfodydd a chymryd rhwng 2 awr a hanner diwrnod ar gyfer bob 'parti', yn dibynnu ar nifer y cyfranogwyr a pha mor gymhleth ydy'r materion. Penderfynu ar anghenion sesiwn ar y cyd gyda phob parti.
- 2.** Cymryd amser i gynllunio/strwythuro'r sesiwn ayb.  
Efallai dim ond cytuno i symud ymlaen i'r cam nesaf.
- 3.** Dod â'r partïon at ei gilydd – a chreu'r agenda – cyd-gytuno ar restr o'r meysydd sydd i'w harchwilio a'u datrys gyda'r wybodaeth gasglwyd ar y dechrau gan y partïon ar wahân.

4. Archwilio'r meysydd – herio'r 'status quo' – bydd hyn yn cymryd bron y cyfan o'r amser bydd y grwpiau'n cyd-gyfarfod. Bydd y 'cyfryngydd'/ cadeirydd yn annog trafod agored am y materion, gan ofalu bod y rhai sy'n cymryd rhan yn cael cefnogaeth ac yn teimlo'n ddiogel a bod y broses yn cadw'n waraidd, ond yn caniatáu i bobl fynegi eu teimladau'n briodol.
5. Canfod Opsiynau a chyfleoedd – mae hwn yn sesiwn agored iawn – gan annog cydnabod llwyddiannau'r gorffennol a dysgu a cheisio syniadau creadigol a blaengar.
6. Egluro'r opsiynau gorau i ddatrys y problemau ac i gydweithio – cychwyn blaenoriaethu a dewis yr hyn sydd orau.
7. 'Profi' gallu'r grŵp – dewis yr opsiynau fydd yn llwyddo.
8. Datblygu cynllun i weithio gyda'r penderfyniadau hyn a chynlluniau i barhau a chynnal perthynas yn y dyfodol. Rhaid cofnodi'r cynllun hwn yn fanwl a'i gytuno fel cam olaf y broses – unwaith eto mae'n bwysig fod hyn yn adlewyrchu'r hyn ddigwyddodd yn y sesiwn, a dylai'r rhestr weithredu fod ag enwau ac amserlen ynghlwm a nhw.

Dylai pob parti wedyn lofnodi'r cytundeb. Os yn bosib, dylid gwneud hyn YN y sesiwn os oes gan y sgrifellwr gyfrifiadur (a pheiriant argraffu) NEU dylai gael ei gwblhau o fewn ychydig ddyddiau busnes a'i anfon rownd pawb o'r mynychwyr i'w gadarnhau o fewn amserlen benodedig.

Bydd Camau 3-8 i gyd yn rhan o'r sesiwn ar y cyd – a bydd, gobeithio, yn digwydd ar yr un diwrnod dros 2 sesiwn, ond efallai y bydd angen dyddiau ychwanegol gan ddibynnu ar allu'r rhai sy'n cymryd rhan i gadw i fynd am gyfnodau meithion. Dim ond yn ystod y broses y gellir penderfynu ar hyn.

## **Crynodeb**

Nod prosiect 'Y Ffordd Ymlaen' oedd sefydlu proses a fyddai'n rhoi gwerth ar addysg, dealltwriaeth ac adeiladu perthynas, proses a fyddai'n gyffrous, yn sylweddol ac arloesol. Mae gwrthdaro yn rhan naturiol a normal o'n bywyd bob dydd, yn enwedig os nad ydyn ni'n gwybod nac yn deall popeth am ein gilydd nac am y gwahaniaethau rhyngom. Mae'r broses cyfryngu, gyda'i phwyslais ar ddod o hyd i ddatrysiad yn sicr yn hybu nod cyffredinol y prosiect a helpu'r

grwpiau a'r unigolion dan sylw i wethio'n effeithiol; a gyda pharch, yn cynyddu eu dealltwriaeth a'u gallu i fynegi eu hanghenion a datblygu eu sgiliau i ddelio â materion anodd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag: **Ann Lukens**, GroupWorks Associates

**E-bost:** [Ann@bigsnap.org.uk](mailto:Ann@bigsnap.org.uk) **Ffôn:** 01600 860059

## Atodiad 2:

### Anabledd a iaith

Darn o 'Canllawiau ar gyfer defnyddio termau anabledd' a gynhyrchwyd gan Canolfan Termau Cenedlaethol Cymraeg, Prifysgol Cymru Bangor ar gyfer Anabledd Cymru, 2001 ar gael o AC

Mae'r mudiad anabledd yn gwahaniaethu rhwng nam ac anabledd fel hyn:

**Nam** ydy cyfyngiad swyddogaethol ar berson oherwydd cyflwr corfforol, meddyliol neu synhwyraidd. Nam ydy cyflwr meddygol unigolyn.

**Anabledd** ydy colli neu gyfyngu ar gyfleoedd i gymryd rhan ym mywyd pob dydd y gymuned yn gydradd â phobl eraill oherwydd rhwystrau ffisegol a chymdeithasol. Yr hyn sy'n anablu pobl ydy'r rhwystrau sy'n deillio o'u hamgylchedd ac agwedd cymdeithas sy'n eu hatal rhag chwarae rhan lawn yn y gymdeithas honno.

Defnyddio	Peidio â defnyddio
disabled people <i>pobl anabl</i>	the disabled people with disabilities <i>pobl ag anabledd</i> <i>yr anabl</i>
people with hearing impairments <i>pobl fyddar</i>	the deaf <i>y byddar</i>
people with visual impairments <i>pobl ddall</i>	the blind <i>y dall</i>
people with epilepsy <i>pobl ag epilepsi</i>	epileptics
people with diabetes <i>pobl â diabetes</i>	diabetics

<b>Defnyddio</b>	<b>Peidio â defnyddio</b>
non-disabled people <i>pobl nad ydynt yn anabl</i>	able-bodied people healthy people <i>pobl iach</i> normal people <i>pobl normal</i>
disability <i>anabledd</i>	<i>analluedd</i>
disabled <i>anabl</i>	<i>analluog</i>
impairment <i>nam</i> <i>nam ar y corff</i> <i>nam ar y synhwyrâu</i>	<i>amhariad</i>  <i>amhariad ar y corff</i> <i>amhariad ar y synhwyrâu</i>
wheelchair users <i>pobl sy'n defnyddio cadair olwyn</i> <i>pobl mewn cadair olwyn</i>	people confined to a wheelchair <i>pobl sy'n gaeth i gadair olwyn</i>
specific needs / requirements <i>anghenion penodol</i>	special needs <i>anghenion arbennig</i>
people with a particular condition / people who have a specific condition <i>pobl sydd â chyflwr arbennig</i>	people who suffer from a particular condition <i>pobl sy'n dioddef o gyflwr arbennig</i>
client / customer <i>cleient / cwsmer</i>	patient <i>claf</i>
disabled <i>anabl</i>	handicapped invalid
without speech <i>mud</i> <i>heb leferydd</i>	dumb <i>mudan</i>
cerebral palsy <i>parlys yr ymennydd</i>	spastic <i>sbastig</i>
sign language interpreter <i>cyfieithydd iaith arwyddion</i>	signer <i>lladmerydd</i> <i>dehonglydd</i> <i>arwyddwr</i>
sign language <i>iaith arwyddion</i>	<i>iaith dwylo</i>



# Atodiad 3:

## **Datblygiad a Hyfforddiant**

Darn o 'A National Framework for Disability Equality & Etiquette Learning (DEEL) for Health and Social Care Services', DRC a'r Adran Iechyd, 2007.

### **Taflen Gyfarwyddyd 1:**

#### **'Etiquette' wrth ddeilio ag Anabledd Cyffredinol (General Disability Etiquette)**

##### **Agwedd ac Ymddygiad**

- Cydnabod hawliau pobl anabl
- Peidio â chymryd yn ganiataol nad yw person anabl yn gweithio neu'n gallu gweithio
- Osgoi gofyn cwestiynau a allai fod yn ymwthiol ac amhriodol, e.e. "beth sy'n bod arnoch chi?" "Ers pryd ydych chi wedi bod yn anabl?" neu "Ydy bod yn ddall yn waeth na bod yn fyddar?" ayb.
- Osgoi trin person anabl fel rhywun sydd angen cardod, yn destun tosturi, yn rhywbeth i'w wella ayb.
- Gofynnwch a allwch helpu cyn mynd ati i'w wneud. Peidiwch â digio os na fydd y person anabl angen nac yn dymuno cael eich help.
- Ceisiwch fod yn hyderus a chyfforddus
- Yn y mwyafrif o sefyllfaoedd gwasanaethu, gallwch ddarparu'r un math o ofal i gwsmer anabl ag i berson heb fod yn anabl e.e. bod yn broffesiynol a chwrtais ar bob adeg, dan reolaeth o dan bwysau ac yn delio ag anfoesgarwch megis iaith anwedddus yn dawel
- Bod yn ymwybodol o nam person (neu bod ganddyn nhw nam) ac felly, bod angen cwrdd ag anghenion mynediad
- Peidio â rhygnu ymlaen am nam neu wahaniaeth person anabl

## **Sgiliau Cyfathrebu**

- Cael man addas i siarad, wedi'i oleuo'n dda, h.y. gofalu nad ydy'r golau yn taflu cysgod drostoch chi
- Sicrhau eich bod yn dal sylw'r gwrandawr cyn i chi gychwyn siarad
- Defnyddio iaith blaen a pheidio â gwag-siarad
- Osgoi 'jargon' a thalfyriadau anghyfarwydd
- Peidio â gweiddi
- Ffocysu ar yr hyn sy'n cael ei gyfathrebu
- Os nad ydy rhywun yn deall yr hyn a ddywedoch, peidiwch â'i ailadrodd. Ceisiwch ei aralleirio
- Defnyddio sgiliau gwranddo gweithredol, gan gynnwys rhoi adborth, gofyn cwestiynau perthnasol pellach a defnyddio iaith y corff yn effeithiol
- Gofyn am eglurhad os nad ydy'r person anabl wedi deall rhywbeth.
- Rhoi adborth ar hyn a ddeallwyd – gofyn iddyn nhw lenwi'r bylchau
- Defnyddio cwestiynau i egluro pwyntiau penodol
- Annog a chaniatáu i eraill siarad heb dorri ar eu traws
- Ystyried dulliau o gyfathrebu e.e. ei ysgrifennu, sillafu gyda bysedd, Cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydeinig (BSL)
- Defnyddio'u gweithiwr cymorth / hwylusydd – ond edrych ym myw llygaid y person anabl a siarad yn uniongyrchol ag e/â hi.

## **Taflen Gyfarwyddyd 2:**

### **'Etiquette' wrth ddelio ag Anabledd o ran Namau**

Mae hyn yn darparu gwybodaeth fwy penodol ar gyfathrebu a gweithio gyda phobl gydag ystod o namau a gofynion mynediad cysylltiedig.

### **Pethau i'w Gwneud a'u Hosgoi wrth weithio gyda pherson:**

- sydd wedi colli'i glyw / ei chlyw yn rhannol neu'n gyfangwbl
- sy'n defnyddio cyfieithydd iaith Arwyddion Prydeinig

- sy'n defnyddio siarad â gwefusau
- sy'n defnyddio dolen anwytho
- sydd â nam ar y lleferydd
- sydd heb leferydd
- sydd â nam ar ei olwg / ei golwg
- sy'n defnyddio ci tywys, ci clywed neu gi cymorth
- sydd ag anhawster dysgu
- a effeithir gan awtistiaeth
- sy'n amlwg yn wahanol e.e. man geni, creithiau, llosgiadau ayb.
- sy'n defnyddio cadair olwyn
- sydd â phroblem iechyd meddwl
- a effeithir gan epilepsi
- a effeithir gan asthma neu alergeddau
- sydd wedi colli aelod o'r corff neu â diffyg aelod o'r corff.

## Atodiad 4:

### **Cynllunio Digwyddiad Hygyrch: Crynodeb o Restr Wirio**

Mae gwybodaeth gynhwysfawr i ategu'r rhestr wirio hon ar gael yn 'Accessible Meetings and Events' a gyhoeddwyd gan Grŵp Mynediad Pobl Anabl Manceinion.

- Ystyried sut bydd y digwyddiad yn gweddu i'ch proses o ymglymiad a sicrhau bod hyn yn glir yn neunydd cyhoeddusrwydd y digwyddiad.
- Neilltuo cyllideb sy'n cynnwys cwrdd â gofynion mynediad.
- Ystyried pa mor fforddiadwy ydy'r digwyddiad ac ystyried talu costau teithio a threuliau eraill yn cynnwys staff cymorth.
- Sicrhau lleoliad sy'n hygyrch, gyda chyfleusterau parcio digonol a hawdd ei gyrraedd gyda chludiant cyhoeddus hygyrch.
- Dewis dyddiad ac amser sy'n gyfleus i'r gynulleidfa darged – a fydd angen iddyn nhw gael amser o'r gwaith neu fyd addysg? Fydd cychwyn yn gynnar neu orffen yn hwyr yn effeithio ar y bobl hynny sy'n dibynnu ar gymorth neu sydd ag ymrwymadau gofal plant? Ydy'r amseroedd cychwyn a gorffen yn ystyried amserlenni cludiant cyhoeddus?
- Hysbysebu ymlaen llaw – defnyddio ystod o ddulliau priodol i dargedu cynulleidfa.
- Ydy e'n achlysur agored, ydy'r cyfranogwyr wedi'u gwahodd neu oes angen neilltuo lle? Sut byddwch yn derbyn gwybodaeth am ofynion mynediad a deiet pobl neu alluogi pobl i roi gwybod i chi? Os oes ffurflen neilltuo lle, gellir ei chynnwys yma.
- Sicrhau bod nifer o ddulliau y gall pobl neilltuo lle neu ofyn am wybodaeth – dros y ffôn, neges destun, gwefan hygyrch, e-bost – peidio â dibynnu ar un dull o gyfathrebu.
- Ystyried hygyrchedd y deunydd a sut y gofynnir amdano – Hawdd ei Ddarllen, Braille, clywedol ayb. Caniatáu amser i gynhyrchu hyn.

- Rhaid sicrhau cymorth i alluogi pobl i gyfranogi megis cyfieithwyr iaith arwyddion, siaradwyr gwefusau, palandeipyddion (teipyddion o'r llafar i destun) ymhell ymlaen llaw – ystyried hyn wrth gynllunio'r amserlen. Efallai ei bod hi'n bosibl i gadarnhau bwciadau dros dro yn nes at yr amser. Efallai bydd angen dau gyfieithydd os bydd yr achlysur yn para dros awr.
- Cynllunio cynllun ystafell i gynnwys lleoli staff cymorth a'r rhai sydd angen hyn; a chynllunio ar gyfer hyn mewn sesiynau gweithdy ac ardaloedd gorffwys.
- Sicrhau llwybrau â mynediad hawdd i bob rhan o'r digwyddiad gan gynnwys ardal y lluniaeth a rhwydweithio anffurfiol.
- Darparu arwyddion clir a sicrhau bod staff ar gael i roi cyfarwyddiadau a chymorth os ydy cynllun y lleoliad yn gymhleth.
- Sicrhau bod staff cofrestru a staff eraill wedi'i hyfforddi'n briodol ac wedi'i partoi i gwrdd ag anghenion mynediad ar y diwrnod gan gynnwys sut i ddefnyddio'r offer megis dolenni anwytho. Ystyried a oes angen hyfforddiant ar y staff mewn sgiliau cyfathrebu a thywys y dall i gynorthwyo'r cyfranogwyr.
- Briffio'r cadeirydd a'r siaradwyr i sicrhau bod eu cyflwyniadau'n hygyrch – osgoi 'jargon', print cyfarpar clywedol megis sleidiau yn glir a gweledol, disgrifio delweddau, cynnwys is-deitliau i fideo, ffilm neu DVD, iaith Arwyddion Prydeinig a disgrifiadau clywedol ayb.
- Briffio arweinwyr gweithdai i sicrhau eu bod yn ystyried ymlaen llaw ddulliau cynhwysol o gymryd rhan mewn trafodaethau, cofnodi mewnbwn a rhoi adborth.
- Sicrhau bod dolen anwytho neu welliannau sain eraill ar gael i'w defnyddio ymhob ystafell a gwirio eu bod yn gweithio ar y diwrnod.
- Wrth drefnu'r rhaglen, rhaid ystyried yr amseru – yr angen i gyfieithwyr gymryd egwyl yn gyson, y nifer o bobl mewn ciw i ddefnyddio toiledau hygyrch ar yr egwyl, yr amser mae'n ei gymryd i symud i ardaloedd gorffwys ayb.
- Gwiriwch bod y trefniadau arlwygo yn cwrdd ag anghenion mynediad, er enghraifft, cwpanau gyda dolenni neu welltyn ar gael; digon o gadeiriau a byrddau hygyrch os nad oes pryd llawn, bwydlen hygyrch neu ddisgrifiad o fwyd os mai bwffe ydy'r pryd.

- Darparu powlen o ddŵr ffres ar gyfer cŵn cymorth a gwybodaeth am fannau i'r cŵn basio dŵr.

### **Ar ôl y digwyddiad:**

- Gwiriwch y ffurflenni gwerthuso a gofyn am sylwadau sut i wella'r digwyddiad nesaf.
- Darparu adroddiadau hygrych, gwybodaeth am y penderfyniadau a wnaed, adborth ar y modd y bydd y digwyddiad yn dylanwadu ar weithgareddau'r yn y dyfodol a'r camau nesaf, gan sicrhau bod y cyfranogwyr yn teimlo bod eu hymglymiad yn werth chweil.



### **Cysylltu ag Anabledd Cymru.**

Anabledd Cymru,

Tŷ'r Bont,

3 Parc Busnes Caerffili,

Heol Van,

Caerffili, CF83 3GW

Ffôn: 029 2088 7325

Ffacs: 029 2088 8702

E-bost: [info@disabilitywales.org](mailto:info@disabilitywales.org)

Gwefan: [www.disabilitywales.org](http://www.disabilitywales.org)





Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

